This sub area is predominantly rural, but includes Ledbury and Malvern. This sub area combines two of the CFMP's policy units: Policy Unit 10 the Lower Severn Corridor, and Policy Unit 18 the Leadon Catchment because they are geographically close and have similar characteristics and priorities for flood risk management.

There is a relatively low level of fluvial flood risk in this sub area, generally in small pockets that are fairly far apart. In total, there are approximately 500 properties at risk of flooding in a 1% event, however there is also surface water



## Proposed actions to implement the preferred policy

- Encourage rural and urban best practices in land-use and in land-management to restore more sustainable natural floodplains and to reduce run-off.
- Raise awareness of flooding among the public and key partners, especially major operators of infrastructure, allowing them to be better prepared. Encourage them all to increase the resilience and resistance of vulnerable buildings, infrastructure and businesses.
- Ensure floodplains are not inappropriately developed. Follow the ‘sequential approach’ of PPS 25, and consider land swapping opportunities.
- Review how effective and sustainable flood defences are. Ensure that maintenance operations are proportionate to flood risk. In the Severn Corridor there are raised defences in the Chelt Basin that mainly protect agricultural land. These need to be reviewed to find out how effective they are and what impact they have downstream.
- Seek opportunities to improve watercourses where it would benefit fisheries (especially salmon.) Consider the impact of flood risk management activities on SSSIs, for example Malthouse Farm Meadows.



↑ Lower Severn Corridor

# Upper Avon

## Our key partners are:

Harborough District Council

Rugby Borough Council

Stratford-on-Avon District Council

Warwick District Council

Daventry District Council

Natural England

RSPB

NFU

CLA

## The issues in this sub area

This sub area is mainly rural, but also contains Lutterworth and Southam. It surrounds Rugby, which is covered separately as Sub area 8 because being a city, its circumstances, flood risk issues and characteristics are different. Therefore this sub area covers only the CFMP Policy Unit 14.

There is a relatively very low level of fluvial flood risk with fewer than 190 properties at risk from the 1% flood event. The majority of these are in Yelvertoft and Willoughby. Essential infrastructure at risk includes two water treatment works and sewage works, and roads including the A425, A426, A423, A428, M1 and M6. There is also a surface water flood risk in this sub area.

The risks above can be managed at the same time as encouraging increased floodwater storage on undeveloped floodplains in order to increase attenuation and reduce flood risk to communities. This sub area presents a good opportunity for storage, as it will benefit communities locally and downstream.

Man-made trends in land-management and land-use have increased flood risk over time in this sub area. Working with local interest groups we need to introduce different ways of working that can reverse these trends and also help to offset rising flood risk due to climate change.

In the next 50 to 100 years, it is estimated that as a direct result of climate change and urbanisation the number of properties at risk from flooding in a 1% flood event will rise to approximately 210.

## The vision and preferred policy

**Policy Option 6** – Areas of low to moderate flood risk where we will take action with others to store water or manage run-off in locations that provide overall flood risk reduction or environmental benefits.

We can apply this policy either locally to a flooding problem, or some distance away where flooding is not a problem. However, the

principle behind this policy is that we transfer flooding to places where it can bring benefits, which reduces the risk in areas where it is a problem. This may mean that we can restore floodplains and improve habitats, reducing the negative impacts of flooding elsewhere within the catchment. This may also include changing the way we use the land to hold water within that part of the catchment for longer, reducing flood risk elsewhere.

## The key messages

- We plan to reduce dependence on raised flood defences, as this is unsustainable in the long term, by taking opportunities to restore sustainable natural storage of floodwater on undeveloped floodplains. This would benefit many communities here and elsewhere, for example Yelvertoft, Willoughby, Rugby and Leamington Spa.
- Surface water flooding is a growing problem. Local authorities are mainly responsible for managing this, but it often has to be integrated with other organisations' assets, for example their sewers or rivers.

## Proposed actions to implement the preferred policy

- Maintain flood warning systems and explore opportunities to improve their effectiveness and coverage. For example, consider extending coverage for Southam and Clay Coton.
- Review how effective and sustainable each flood defence is. Review maintenance operations to ensure they are proportionate to flood risk, for example for Yelvertoft and Willoughby.
- Carry out a strategic study to investigate the following aspects of storage of floodwater on the floodplain: making the best use of existing storage areas; the potential for extra storage areas within the undeveloped floodplain. Study to cover including storage as part of end-of-life reinstatement of quarries.
- Encourage rural best practices in land-use and in land-management to restore more sustainable natural floodplains and to reduce run-off.



↑ River Avon

# Middle Avon, Tributaries, Arrow and Alne, Redditch, Rugby and Teme

## Our key partners are:

Local Authorities

CLA

Countryside Council for Wales

Forestry Commission

Natural England

NFU

Severn Trent Water

## The issues in this sub area

This sub area, the largest within the River Severn CFMP, varies greatly in terms of both land use and character. For example, in spite of being predominantly rural, encompassing locations such as Knighton, Craven Arms and Ludlow, there are also a number of major urban centres such as Rugby, Redditch and Alcester within this sub area’s boundaries. This sub area combines six of the CFMP’s Policy Units (PU): PU 9 Redditch; PU 11 River Arrow and River Alne; PU 12 Middle Avon; PU 15 Rugby; PU 16 Avon Tributaries; and PU 19 Teme.

Throughout this sub area, there is a moderate level of fluvial flood risk with approximately 5,330 properties at risk in a 1% flood event. Surface water flooding

also presents a significant risk in a number of locations, with Henley-in-Arden and Wellesbourne particularly vulnerable.

Significant development is also planned in a number of areas (for example in Rugby and Redditch) but some of the identified potential sites are not adequately protected from flood risk. It will be developers’ responsibility to resolve this with the local planning authority. Government investment can be justified for managing risk to the existing built environment under certain situations; it should not be focused on accommodating future developments. Development locations should be selected based on low flood-risk, ensuring that developments have flood-compatible layouts and SuDS.

Man-made trends in land-management and land-use have increased flood risk over time in this sub area. Working with local interest groups we need to introduce different ways of working that can reverse these trends and also help to offset rising flood risk due to climate change.

In the next 50 to 100 years, it is estimated that as a direct result of climate change and urbanisation the number of properties at risk from flooding in a 1% flood event will rise to approximately 6,360.

## The vision and preferred policy

**Policy Option 3** – Areas of low to moderate flood risk where we are generally managing existing flood risk effectively.

We have selected this policy because the risks are currently managed appropriately and the risk of flooding is not expected to increase significantly in the long term. We may need to review whether what we are doing currently is the best way of managing the risk in the longer term, but we are confident that the risks do need managing.

This policy may lead to reviewing the flood warning services and/or how we manage assets that may be in place.

## The key messages

- We plan to reduce dependence on raised flood defences, as this is unsustainable in the long term, by taking opportunities to restore sustainable natural storage of floodwater on undeveloped floodplains.
- Surface water flooding is a growing problem. Local authorities are mainly responsible for managing this, but it often has to be integrated with other

organisations' assets, for example their sewers or rivers.

- Flooding cannot be entirely eliminated and so residents, owners, and businesses need to manage some risks themselves. For example, registering for the Floodline Warnings Direct (FWD) service and flood warden schemes; being aware of emergency plans; and adapting vulnerable buildings.
- Development/redevelopment must be managed to minimise flood risks. Methods must be sustainable over the long-term. For example, making more space for rivers through urban areas via 'blue corridors' (i.e. Restoring access for floodwater onto key strips of floodplain. This requires redevelopment to be limited to flood-compatible land-uses e.g. parkland).
- Some designated 'aquatic conservation' sites are in unfavourable condition (for example Teme SSSI, and Clun SAC). Activities that affect these sites must be changed to improve their condition.

## Proposed actions to implement the preferred policy

- Encourage rural and urban best practices in land-use and in land-management to restore more sustainable natural floodplains and to reduce run-off.
- Ensure that the run-off from all proposed development is minimised. For example, SuDS must be encouraged and targeted within planning approvals. Encourage the retro-fitting of SuDS where surface water flooding is already a problem.
- Raise awareness of flooding among the public and key partners, especially major operators of infrastructure, allowing them to be better prepared. Encourage them all to increase the resilience and resistance of vulnerable buildings, infrastructure and businesses.
- Maintain flood warning systems and explore opportunities to improve their effectiveness and coverage.
- Ensure floodplains are not inappropriately developed. Follow the 'sequential approach' of PPS 25, and consider land swapping opportunities.
- Encourage compatibility between urban open spaces and their ability to make space for rivers to expand as flood flows occur. One example of a flood-compatible use is playing fields. Appraise strategies to create 'blue corridors' by developing/redeveloping to link these flood-compatible spaces.
- Develop better understanding of flooding from surface water, from drainage systems, and from 'non-main' watercourses. Produce a strategy for operation and investment, integrating these with main rivers. Local authorities to develop Surface Water Management Plans for in and around Rugby.
- Support ecological improvements. Examples of this include Severn & Avon Wetlands Project; Natural England's three fluvial SSSIs; Cotswold AONB.
- Maintain flood warning systems and look for opportunities to improve their effectiveness and coverage.



↑ Arrow Valley Lake balancing pond & River Arrow

# Tewkesbury, Cheltenham & North-east Gloucester

## Our key partners are:

**Local Authorities**

**Severn Trent Water**

**Natural England**

**IDBs**

## The issues in this sub area

This sub area is predominantly urban and includes Tewkesbury, Cheltenham, Bishops Cleeve and North-East Gloucester. It combines two of the CFMP's policy units; Policy Unit 17 Tewkesbury, and Policy Unit 20 Cheltenham and North-East Gloucester because they have some similar characteristics and priorities for flood risk management. The remainder of Gloucester is covered by the Severn Tidal Tributaries CFMP.

There is a relatively high level of fluvial flood risk, much of it

in Cheltenham, Gloucester and Tewkesbury with approximately 3,350 properties at risk in a 1% flood event. There is also a significant surface water flood risk, much of it also in Cheltenham and Tewkesbury. Essential infrastructure at risk includes Mythe Water Treatment Works, two emergency response centres, seven electricity and gas installations, one telephone exchange and sections of roads including the A40, A438, A4019, A46, A38 and the M5.

Flows in some sub-catchments rise very quickly and current flood warning is impractical in some locations.

Significant development is planned but some of the identified potential sites are not adequately protected from flood risk. It will be developers' responsibility to resolve this with the local planning authority. Government investment can be justified for managing risk to existing built environment under

certain situations, it should not be focused on accommodating future developments. Development locations should be selected based on low flood risk, ensuring that developments have flood-compatible layouts and SuDS.

Man-made trends in land-management and land-use have increased flood risk over time in this sub area. Working with local interest groups we need to introduce different ways of working that can reverse these trends and also help to offset rising flood risk due to climate change.

In the next 50 to 100 years, it is estimated that as a direct result of climate change and urbanisation the number of properties at risk from flooding in a 1% flood event will rise to approximately 4,160.

## The vision and preferred policy

**Policy Option 5** – Areas of moderate to high flood risk where we can generally take further action to reduce flood risk.

This policy is about reducing the risk where the existing flood risk is too high. We need to take action in the short term to reduce this level of risk.



↑ Tewkesbury floods


## The key messages

- Development/redevelopment must be managed to minimise flood risks. Methods must be sustainable over the long-term. For example, making more space for rivers through urban areas via ‘blue corridors’ (i.e. Restoring access for floodwater onto key strips of floodplain. This requires redevelopment to be limited to flood-compatible land-uses e.g. parkland).
- Surface water flooding is a growing problem. Local authorities are mainly responsible for managing this, but it often has to be integrated with other organisations’ assets, for example their sewers or rivers.
- We plan to take opportunities to restore sustainable natural storage of floodwater on undeveloped floodplains, in order to reduce dependence on raised flood defences, as this is not sustainable in the long term, and to offset increasing flood risk from trends including climate change.
- Flooding cannot be entirely eliminated and so residents, owners, and businesses need to manage some risks themselves. For example, registering for the Floodline Warnings Direct (FWD) service and flood warden schemes; being aware of emergency plans; and adapting vulnerable buildings.

## Proposed actions to implement the preferred policy

- Ensure floodplains are not inappropriately developed. Follow the ‘sequential approach’ of PPS 25 and consider land swapping opportunities.
- Encourage compatibility between urban open spaces and their ability to make space for rivers to expand as flood flows occur, particularly in key locations such as Cheltenham and Tewkesbury. One example of a flood-compatible use is playing fields. Appraise strategies to create ‘blue corridors’ by developing/redeveloping to link these flood-compatible spaces.
- Develop better understanding of flooding from surface water, from drainage systems, and from ‘non-main’ watercourses. Produce a strategy for operation and investment, integrating all these with main rivers.
- Encourage rural and urban best practices in land-use and in land-management to restore more sustainable natural floodplains and to reduce run-off.
- Raise awareness of flooding among the public and key partners, especially major operators of infrastructure, allowing them to be better prepared. Encourage them all to increase the resilience and resistance of vulnerable buildings, infrastructure and businesses.
- Review how effective and sustainable each flood defence is. Review maintenance operations to ensure they are proportionate to flood risk. Specific potential reviews include assessing increased targeted debris-removal to reduce blockages in and around Cheltenham.
- Manage the undeveloped floodplain for targeted storage of floodwater. For example, Mythe Water Treatment Works may benefit from removing the disused railway embankment nearby. In the Chelt Basin, we aim to assess in detail the effects of the existing agricultural defences.
- Maintain flood warning systems and explore opportunities to improve their effectiveness and coverage. Facilitate studies on the following watercourses: Chelt (Cheltenham), Frome (Stroud), Twyver (Gloucester) and Tirl, Carrant & Swilgate (Tewkesbury).
- Complete the improvement to flood defences in Cheltenham, and investigate the feasibility of options for managing flood risk in Longlevens.
- Investigate how flood-water flow-routes could be improved in the Tewkesbury area.
- Investigate reducing Tewkesbury’s risk by increasing conveyance at bridges and culverts – by modifying their structures and/or de-silting around them.

# Map of CFMP policies







**Would you like to find out more about us,  
or about your environment?**

**Then call us on**

**08708 506 506\*** (Mon-Fri 8-6)

**email**

**[enquiries@environment-agency.gov.uk](mailto:enquiries@environment-agency.gov.uk)**

**or visit our website**

**[www.environment-agency.wales.gov.uk](http://www.environment-agency.wales.gov.uk)**

**incident hotline 0800 80 70 60** (24hrs)

**floodline 0845 988 1188**

**\* Approximate call costs: 8p plus 6p per minute (standard landline).  
Please note charges will vary across telephone providers.**



**Environment first:** This publication is printed on paper made from 100 per cent previously used waste. By-products from making the pulp and paper are used for composting and fertiliser, for making cement and for generating energy.



Environment  
Agency  
Asiantaeth yr  
Amgylchedd

# Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Hafren

Adroddiad cryno Rhagfyr 2009



rheoli  
perygl  
llifogydd

Asiantaeth yr Amgylchedd ydym ni. Ein gwaith ni yw gofalu am eich amgylchedd chi, a'i wneud yn **lle gwell** – i chi, ac i genedlaethau'r dyfodol.

Eich amgylchedd yw'r aer a anadlwch, y dŵr a yfwch, a'r ddaear y cerddwch arni. Gan weithio gyda busnesau, y Llywodraeth a chymdeithas yn gyfan, rydym yn gwneud eich amgylchedd yn lanach ac yn iachach.

Asiantaeth yr Amgylchedd. Allan yn y maes, yn gwneud eich amgylchedd yn lle gwell.

Cyhoeddwyd gan:

Asiantaeth yr Amgylchedd  
Sapphire East  
550 Streetsbrook Road,  
Solihull, B91 1QT  
Ffôn: 0870 8506506  
E-bost: [enquiries@environment-agency.gov.uk](mailto:enquiries@environment-agency.gov.uk)  
[www.environment-agency.gov.uk](http://www.environment-agency.gov.uk)

© Asiantaeth yr Amgylchedd  
Fersiwn 1.1

Cedwir pob hawl. Caniateir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd o flaen llaw.  
Rhagfyr 2009

# Rhagarweiniad

---



**Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein crynodeb o Gynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Hafren (CFMP). Mae'r CFMP hwn yn rhoi golwg gyffredinol dros y perygl o lifogydd yn nalgylch Hafren ac yn gosod allan ein cynllun dewisedig ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn gynaliadwy dros y 50 i 100 mlynedd nesaf.**

Mae CFMP Hafren yn un o 77 CFMP ar gyfer Cymru a Lloegr. Trwy'r CFMPs, rydym wedi asesu perygl llifogydd mewndirol ar draws Cymru a Lloegr gyfan am y tro cyntaf. Mae'r CFMP yn ystyried pob math o lifogydd mewndirol, o afonydd, dŵr daear, dŵr wyneb a llifogydd llanwol, ond nid llifogydd sy'n dod yn uniongyrchol o'r môr (llifogydd arfordirol, a rychwantir gan Gynlluniau Rheoli Traethlinau (SMPs)). Fodd bynnag, cyfyngir ar ein gallu i rychwantu dŵr wyneb a dŵr daear gan ddiffyg gwybodaeth sydd ar gael.

Rôl CFMPs yw sefydlu polisiau rheoli perygl llifogydd a fyddant yn cyflawni rheolaeth gynaliadwy o berygl llifogydd ar gyfer y tymor hir. Mae hyn yn hanfodol os ydym am ddod i'r penderfyniadau buddsoddi cywir ar gyfer y dyfodol ac i helpu i ni ymbaratoi'n effeithiol ar gyfer effaith newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn defnyddio CFMPs i'n helpu i dargedu ein hadnoddau cyfyngedig yn y manau lle ceir y peryglon mwyaf.

Mae'r CFMP hwn yn nodi polisiau rheoli perygl llifogydd er mwyn helpu pob penderfynwr allweddol yn y dalgylch. Cafodd ei gynhyrchu trwy gyfrwng ymgynghoriad eang a phroses o werthuso, fodd bynnag, cam cyntaf yn unig ydyw tuag at ddull integredig o Reoli Perygl Llifogydd. Wrth i ni gydweithio er mwyn cyflawni ein hamcanion, rhaid i ni fonitro a gwrando ar gynnydd ein gilydd, trafod beth a gyflawnwyd ac ystyried ymhle medrai fod angen i ni adolygu rhannau o'r CFMP.

Mae gan ddalgylch Hafren hanes hir o lifogydd gyda'r digwyddiad pwysig diweddaraf yn digwydd yn ystod Haf 2007. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod oddeutu

29,000 o eiddo a 60,000 o bobl mewn perygl yn y dalgylch o ddigwyddiad llifogydd a thebygolrwydd o 1% . Fodd bynnag, disgwylir y medrai'r ddau ffigur hyn godi gan gymaint â 12% yn y 50-100 mlynedd nesaf gan olygu, mewn digwyddiad llifogydd â thebygolrwydd o 1%, y medrai cymaint â 33,000 o eiddo a 68,000 o bobl fod dan fygythiad.

Ni fedrwn leihau'r perygl o lifogydd ar ein pennau ein hunain, felly byddwn yn cydweithio'n agos gyda'n holl bartneriaid er mwyn gwella sut cyd-drefnir gweithgareddau perygl llifogydd ac er mwyn cytuno'r dull mwyaf effeithiol o reoli perygl llifogydd yn y dyfodol. Wrth lunio'r cynllun hwn, rydym wedi gweithio gydag eraill gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Natural England, Byrddau Draenio Mewnol (IDBs), y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Undeb Cenedlaethol y Ffermwr (NFU).

Crynodeb yw hwn o brif ddogfen y CFMP. Os oes angen i chi weld y ddogfen lawn gallwch gaffael fersiwn electronig trwy anfon e-bost at [enquiries@environment-agency.gov.uk](mailto:enquiries@environment-agency.gov.uk) neu, gallwch weld copïau papur yn unrhyw un o'n swyddfeydd yn Rhanbarth y Canolbarth.

**Mark Sitton-Kent**  
**Cyfarwyddwr Rhanbarthol y Canolbarth**

## Cynnwys

Pwrpas CFMP wrth reoli perygl llifogydd	3	4 Coridor Hafren Ganol	18
Golwg gyffredinol dros y dalgylch	4	5 Telford, y Wlad Ddu, Bromsgrove, Kidderminster a Chlwstwr Coventry	20
Perygl llifogydd cyfredol ac yn y dyfodol	6	6 Coridor Hafren Isaf a Dalgylch Leadon	22
Cyfeiriad rheoli perygl llifogydd yn y dyfodol	10	7 Avon Uchaf	24
Is ardaloedd		8 Avon Ganol, Isafonydd, Arrow ac Alne, Redditch, Rugby a Teme	26
1 Ucheldiroedd Hafren a Chydliwiad Efyrnwy	12	9 Tewkesbury ,Cheltenham a Gogledd Ddwyrain Caerloyw	28
2 Caersws a'r Drenewydd	14		
3 Isafonydd Swydd Gaerlleon	16	Map o bolisiau CFMP	30



# Pwrpas CFMP wrth reoli perygl llifogydd

Mae CFMPs yn ein helpu i ddeall graddfa ac ymlediad llifogydd yn awr ac yn y dyfodol, ac yn gosod polisiau ar gyfer rheoli perygl llifogydd o fewn y dalgylch. Dylid defnyddio CFMPs er mwyn ffurfio sail i gynllunio a dod i benderfyniadau gan gyfranddalwyr allweddol fel:

- Asiantaeth yr Amgylchedd, a fyddant yn defnyddio'r cynllun er mwyn tywys penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn cynlluniau, prosiectau neu weithredoedd pellach;


- Cyrff cynllunio rhanbarthol ac awdurdodau lleol a fedrant ddefnyddio'r cynllun er mwyn goleuo gweithgareddau cynllunio gofodol a chynllunio argyfwng;
- IDBs, cwmnïau dŵr a chyfleustodau eraill i helpu i gynllunio eu gweithgareddau yng nghyd-destun ehangach y dalgylch;
- Cynllunwyr trawsgludo;
- Perchnogion tir, ffermwyr a rheolwyr tir sy'n rheoli ac yn gweithredu tir ar gyfer amaethyddiaeth, cadwraeth a phwrpasau mwynder;

- y cyhoedd a busnesau er mwyn gwella eu dealltwriaeth o berygl llifogydd a sut caiff ei reoli.

Bwriad CFMPs yw hyrwyddo dulliau mwy cynaliadwy o reoli perygl llifogydd. Caiff y polisiau a nodir yn y CFMP eu cyflawni trwy gyfuniad o ddulliau gwahanol. Ynghyd â'n partneriaid, byddwn yn gweithredu'r dulliau hyn trwy ystod o gynlluniau, prosiectau a gweithredoedd cyflawni.

Dangosir y berthynas rhwng y CFMP, cynlluniau, strategaethau, prosiectau a gweithredoedd cyflawni yn Ffigur 1.

Ffigur 1 y berthynas rhwng y CFMP, cynlluniau, strategaethau, prosiectau a gweithredoedd cyflawni



# Golwg gyffredinol dros y dalgyrch

---

Mae Hafren, afon hiraf Prydain, yn ymestyn o'i tharddle ym Mrynau Cymru ym Mhumlumon i aber Môr Hafren. Mae CFMP Hafren yn rhychwantu ei holl ddalgyrch i Gaerloyw (i fyny'r afon o Fôr Hafren) o ble fydd yr afon yn dyfod yn gynyddol lanwol. I lawr yr afon o Gaerloyw, rhychwantir y dalgyrch gan CFMP Isafonydd Llanwol Hafren a Chynllun Rheoli Traethlin Moryd Hafren sy'n ymdrin yn benodol â rheoli llifogydd ac erydiad yr arfordir.

Dengys Map 1 leoliad a rhychwant ardal CFMP Hafren. Mae'n cynnwys nifer o isafonydd mawr, a'r hiraf o'r rhain yw Avon Swydd Warwick (179 km) a Teme (122 km).

Maint cyffredinol dalgyrch Hafren yw oddeutu 11,000km<sup>2</sup> ac mae ganddi boblogaeth o oddeutu 2.3 miliwn. Er ei bod yn wledig gan mwyaf (defnyddir 90% o'r tir ar hyn o bryd ar gyfer amaethyddiaeth) ceir nifer o aneddiadau trefol mawr gan gynnwys; Y Drenewydd, Y Trallwng, Amwythig, Ironbridge, Bridgnorth, Bewdley, Stourport-on-Severn, Upton upon Severn, Caerwrangon, Tewkesbury, Ledbury, Cheltenham, Caerloyw, Tenbury Wells, Llwydlo, Coventry, Rugby, Leamington Spa, Warwick, Stratford-on-Avon, Efsam a Pershore.

Mae nodweddion ffisegol a defnyddio tir y dalgyrch hwn yn rhai amrywiol. Bryniog yn bennaf yw dalgyrch Hafren uchaf, dan drem Mynyddoedd Cambria ar ei ymyl gorllewinol. Ymhellach i lawr yr afon, ar ymyl dwyreiniol Ucheldiroedd Hafren, aiff y dopograffeg yn fwy gwastad, gyda'i ran letaf o amgylch cydlifiad Hafren-Efyrnwy. O'r fan hon gellir rhannu'r dalgyrch yn bedair o ardaloedd sy'n wahanol yn dopograffig: Gwastatir Swydd Gaerlleon sy'n gymharol wastad i'r gogledd a'r gorllewin, Bryniau Kerry a Bryniau Swydd Gaerlleon i'r de-orllewin (is-ddalgyrch Teme), Gwastatir tonnog a choediog y Canolbarth tua'r canol (gan gynnwys Ironbridge Gorge) a gorlifdir ehangach a mwy gwastad Hafren i gyfeiriad Caerwrangon.


Mae dalgyrch Hafren hefyd yn cynnwys nifer o safleoedd a ddynodwyd ar gyfer eu pwysigrwydd amgylcheddol gan gynnwys dau safle Ramsar, dwy Ardal Warchodaeth Arbennig (SPA), 15 Ardal Gadwraeth Arbennig (SAC), ac 11 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR). Ceir cyfanswm o 406 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSIs) o fewn y dalgyrch y mae oddeutu 200 ohonynt wedi'u dynodi oherwydd eu diddordeb dyfrol. Gorwedda Parc

Cenedlaethol Eryri i'r gogledd – orllewin ac mae'n gorgyffwrdd rhyw fymryn â rhannau uchaf y dalgyrch. Ceir pedair Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONBs) o fewn y dalgyrch, y Cotswolds, Bryniau Malvern, Bryniau Swydd Gaerlleon a darn bach iawn o Ddyffryn Gwy.

Mae dalgyrch CFMP Hafren hefyd o bwys oherwydd ei amgylchedd hanesyddol sy'n cynnwys dros 1000 o Henebion Rhestredig (SMs), llawer mwy o safleoedd lleol o ddiddordeb ac ardaloedd o etifeddiaeth tirwedd hanesyddol. Mae SMs yn arbennig wedi'u cydgasglu o amgylch trefi hanesyddol fel Caerwrangon, Wroxeter a'r Amwythig. Mae Ironbridge Gorge yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.



Map 1. Lleoliad a rhychwant Ardal CFMP Hafren



↑ Hafren rhwng Tewkesbury a Chaerloyw

# Perygl llifogydd cyfredol ac yn y dyfodol

## Golwg gyffredinol dros y perygl llifogydd cyfredol

Mae gan berygl llifogydd ddwy ran: y siawns (tebygolrwydd) o lifogydd penodol a'r effaith (neu ganlyniad) a gawsai'r llifogydd hynny petaent yn digwydd. Mae tebygolrwydd llifogydd yn berthynol i'r tebygrwydd o lifogydd o'r maint hwnnw yn digwydd o fewn cyfnod o flwyddyn, ac fe'i mynegir fel canran. Er enghraifft, mae gan lifogydd 1% siawns o 1% neu debygolrwydd o 0.01 o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn unigol, ac mae gan lifogydd 0.5% siawns o 0.5% neu debygolrwydd o 0.005 o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn unigol. Nid yw'r peryglon llifogydd a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn yn cymryd amddiffynfeydd rhag llifogydd sydd eisoes yn eu lle i ystriaeth.

Mae gan ddalgylch Hafren hanes hir o lifogydd a gofnodwyd yn dda. Cafwyd y digwyddiad pwysicaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf ledled y dalgylch ym Mehefin/Gorffennaf 2007 o ganlyniad i gyfnod o lawiad eithriadol.

Ar hyn o bryd, y prif ffynonellau o berygl llifogydd i bobl, eiddo, seilwaith a'r tir yw:

- Llifogydd o afonydd o Hafren a'i hisafonydd
- Llifogydd draeniad dŵr wyneb a charthffosydd a gafwyd mewn nifer fawr o fannau ledled y dalgylch gan gynnwys Rugby, Cheltenham, Coventry, Redditch, Leamington Spa, Droitwich, Warwick, Caerwrangon, Efsam.

## Beth sydd dan fygythiad?

Ar hyn o bryd mae oddeutu 60,000 o bobl a 29,000 o eiddo masnachol a phreswylol mewn perygl yn y dalgylch cyfan o lifogydd o afon gyda thebygolrwydd blynyddol o 1%. Golyga hyn fod 2.5% o'r holl boblogaeth sy'n byw yn y dalgylch mewn perygl ar hyn o bryd o lifogydd.

Mae'n anodd asesu effaith gyfredol llifogydd ar nodweddion amgylcheddol. Mae gan y dalgylch nifer o safleoedd wedi'u dynodi sy'n mewn perygl o lifogydd. Fodd bynnag, mae llawer o'r safleoedd hyn yn cynnwys cynefinoedd ble mae llifogydd yn ddigwyddiad naturiol a phwysig a fedrant fod yn fuddiol. Ceir, yn ogystal, 93 o Henebion Rhestredig a fedrant hefyd fod dan fygythiad llifogydd.



↑ Amddiffynfeydd dros dro rhag llifogydd, Upton upon Severn

## Ble mae'r perygl?

Lleolir y rhan fwyaf o'r bobl ac eiddo, sydd mewn perygl o fewn y dalgylch o lifogydd o afon â thebygolrwydd blynyddol o 1%, yn y trefi mwy o faint ar hyd dyffrynnoedd afon Hafren a'i hisafonydd.

Dangosir dosbarthiad perygl llifogydd o lifogydd o afon â thebygolrwydd blynyddol o 1% ym Map 2. Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o ble ceir perygl llifogydd i fwy na 100 o eiddo. Sylweddolwn fod perygl potensial yn ogystal o lifogydd dŵr wyneb a dŵr daear. Fodd bynnag, mae angen astudiaethau pellach sy'n dilyn y CFMP arnom ni a'n partneriaid er mwyn mesur y risg potensial hon.


Tabl 1. Lleoliadau Trefi a Phentrefi gyda 100 o eiddo neu fwy mewn perygl mewn llifogydd o afon â thebygolrwydd blynyddol o 1%.

Nifer yr eiddo mewn perygl	Lleoliadau
>5,000	Dim
2,000 to 5,000	Coventry, Leamington Spa, Warwick
1,000 to 5,000	Cheltenham, Amwythig
500 to 1,000	Telford, Rugby, Efsam, Winyates, Stourport-on-Severn, Bridgnorth, Newtown, Bewdley
250 to 500	Caerwrangon, Redditch, Kenilworth, Droitwich, Llwydlo, Tenbury Wells, Tewkesbury
100 to 250	Bromsgrove, St Johns, Pershore, Wellesbourne, Upton upon Severn, Kempsey

Tabl 2. Seilwaith hollbwysig mewn perygl:

44 o weithfeydd trin carthion
19 ysgol
106 gosodiad trydan
3 ysbyty
21 canolfan ymateb brys
3 safle rheoli peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)
11 cyfnewidfa deffon
20 cartref gofal
2 orsaf rheilffordd
17 hyd o draffordd
203 hyd o ffordd A
256 hyd o ffordd B

Map 2. Perygl llifogydd i eiddo mewn llifogydd o afon gyda thebygolrwydd blynyddol o 1%



## Byddwn yn rheoli risg ar hyn o bryd

Mae gan y dalgylch hanes o berygl llifogydd, o ganlyniad, yn bennaf, i'r glawiad uchel a all arwain at lifogydd eang dros y dyffrynnoedd afon. Gweithredwyd nifer o gynlluniau peiriannu dros y blynyddoedd er mwyn lleihau perygl llifogydd yn y dalgylch gan gynnwys:

- Adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd er mwyn gwarchod cymunedau fel Y Drenewydd, Caersws, Kidderminster, Cheltenham, Rugby, Clay Coton, Alcester, Henley-in-Arden, Wellesbourne, Sedgeberrow.
- Defnyddio rhwystrau dros dro a/neu ddatodadwy yn ystod digwyddiadau o lifogydd ar hyd Dyffryn Hafren gan gynnwys Amwythig, Bewdley ac Ironbridge.
- Adeiladu argloddiau pridd yn ardal cydlifiad Hafren/Efyrwy (a elwir yn argaeau) ac yn rhannau isaf Hafren rhwng Caerwrangon a Chaerloyw er mwyn darparu gwarchodaeth i eiddo a thir amaethyddol o ddigwyddiadau llifogydd mwy mynych.

Yn ychwanegol i'r cynlluniau peiriannu hyn, gwneir gweithgareddau rheoli perygl llifogydd eraill yn y dalgylch. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau sy'n helpu i leihau'r tebygolrwydd o lifogydd a'r rheiny sy'n mynd i'r afael â chanlyniadau llifogydd.

Mae gweithgareddau sy'n lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd yn cynnwys:

- cynnal a chadw amddiffynfeydd ac adeiladweithiau sy'n bodoli eisoes;
- cynnal sianelau afonydd;
- cynnal rhwydweithiau draenio gan Fyrddau Draenio Mewnol (IDBs) a pherchnogion tir;
- cynnal draeniad ffyrdd a charthffosydd;

Mae gweithgareddau sy'n lleihau canlyniadau llifogydd yn cynnwys:

- deall ble mae llifogydd yn debygol o ddigwydd trwy ddefnyddio mapio perygl llifogydd;
- gweithio gydag Awdurdodau Lleol er mwyn dylanwadu ar leoliad, cynllun a dyluniad eiddo newydd ac a ailddatblygwyd a sicrhau mai datblygiad addas yn unig a ganiateir ar y gorlifdir trwy gymhwyso Datganiad Polisi Cynllunio 25 (PPS 25) (TAN 15 yng Nghymru).
- darparu gwasanaethau rhagweld a rhybuddio am lifogydd;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth o lifogydd fel bod sefydliadau, cymunedau ac unigolion yn gwybod am y perygl ac yn barod rhag ofn bod angen iddynt weithredu pan geir llifogydd;
- hyrwyddo mesurau gwynnwch a gwrthsefyll ar gyfer yr eiddo hynny sydd eisoes yn y gorlifdir.

## Effaith newid yn yr hinsawdd a'r perygl o lifogydd yn y dyfodol

Yn y dyfodol, dylanwadir ar lifogydd gan newid yn yr hinsawdd, newidiadau yn sut defnyddir tir (er enghraifft datblygiad trefol) a sut rheolir tir gwledig. Yn nalgylch Hafren, caiff newid yn yr hinsawdd yr effaith fwyaf ar berygl llifogydd. Defnyddiwyd y senario canlynol ar gyfer y dyfodol yn CFMP Hafren:

- Cynnydd o 20% mewn llofoedd brig ym mhob cwrs dŵr. Bydd hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau llifogydd ar raddfa eang.


Gan ddefnyddio modelau afon amcangyfrifwn erbyn 2100, y gallai oddeutu 68,000 o bobl a 33,000 o eiddo ar draws y dalgylch fod mewn perygl o lifogydd o afon gyda thebygolrwydd blynyddol o 1%.

Dengys Ffigur 2 y gwahaniaeth rhwng peryglon llifogydd cyfredol ac yn y dyfodol o lifogydd o afon gyda thebygolrwydd blynyddol o 1% mewn lleoliadau allweddol yn y dalgylch. Yn dilyn y CFMP, mae angen i sefydliadau gydweithio er mwyn ymchwilio i berygl llifogydd o ffynonellau eraill (e.e. llifogydd dŵr wyneb a dŵr daear) mewn dull mwy manwl.

Mae perygl llifogydd i seilwaith hollbwysig neu gysylltau cludiant yn annhebygol o gynyddu rhyw lawer.

Disgwylir i rai o'r safleoedd amgylcheddol dynodedig yn y dalgylch ddiodef peryglon llifogydd uwch yn y dyfodol, a fedrai fod yn fuddiol mewn rhai achosion.

**Ffigur 2 Perygl llifogydd cyfredol ac yn y dyfodol (2010) i eiddo o lifogydd o afon gyda thebygolrwydd blynyddol o 1%.**



# Cyfeiriad Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer y Dyfodol


## Dulliau o fynd ati ym mhob is ardal

Er mwyn asesu'r dull mwyaf cynaliadwy o fynd ati i reoli perygl llifogydd yn nalgylch Hafren, rhannodd CFMP Hafren yr ardal astudio yn 20 o isadrannau a elwir yn unedau polisi. Fodd bynnag, at bwrpas y crynodeb hwn rydym wedi cyfuno rhai unedau polisi cyfagos, sy'n meddu ar nodweddion ffisegol, ffynonellau llifogydd a lefelau perygl tebyg. Cafodd hyn y canlyniad o greu 9 is

ardal, y dosrannwyd i bob un ohonynt un o chwech o bolisiau rheoli perygl llifogydd generig (Tabl 2).

Er mwyn dethol y polisi mwyaf addas, mae'r cynllun wedi ystyried sut caiff amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eu heffeithio gan weithgareddau rheoli perygl llifogydd o dan bob dewis polisi.

Map 3. Yr is ardaloedd yn nalgylch CFMP Hafren



## Table 3 Dewisiadau Polisi

### → Polisi 1

**Ardaloedd lle ceir ond ychydig neu ddim perygl llifogydd ble byddwn yn parhau i fonitro a chynghori.**

Tueddir i gymhwyso'r polisi hwn yn yr ardaloedd hynny lle ceir ychydig iawn o eiddo mewn perygl llifogydd. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad i weithio gyda'r prosesau llifogydd naturiol cyn belled ag y bo modd.

---

### → Polisi 2

**Ardaloedd o berygl llifogydd isel i ganolig lle gallwn leihau gweithredoedd rheoli perygl llifogydd cyffredol yn gyffredinol.**

Tueddir i gymhwyso'r polisi hwn ble mae perygl cyffredinol o bobl ac eiddo yn isel i ganolig. Mae'n bosibl nad yw mwyach yn rhoi gwerth am yr arian i ffocysu ar barhau i ddarparu lefelau cyffredol o gynnal amddiffynfeydd sy'n bodoli eisoes os gallwn ddefnyddio adnoddau er mwyn lleihau perygl mewn mannau ble ceir mwy o bobl mewn mwy o berygl. Byddem, oherwydd hyn, yn adolygu'r gweithredoedd rheoli perygl llifogydd a wneir er mwyn iddynt fod yn gymesur â lefel i risg.

---

### → Polisi 3

**Ardaloedd o berygl llifogydd isel i ganolig lle'r ydym yn gyffredinol yn rheoli perygl llifogydd cyffredol yn effeithiol.**

Tueddir i gymhwyso'r polisi hwn mewn mannau lle rheolir y peryglon yn addas ar hyn o bryd a ble na ddisgwylir i'r perygl o lifogydd gynyddu rhyw lawer yn y tymor hir. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu ein dull o fynd ati, gan chwilio am welliannau ac ymateb i heriau newydd neu wybodaeth fel y bônt yn ymddangos... Gallwn adolygu ein dull o reoli amddiffynfeydd rhag llifogydd a gweithredoedd rheoli perygl llifogydd eraill, er mwyn sicrhau ein bod yn rheoli'n effeithlon ac yn mabwysiadu'r dulliau gorau o reoli perygl llifogydd dros y tymor hir .

---

### → Polisi 4

**Ardaloedd o berygl llifogydd isel, canolig neu uchel ble'r ydym eisoes yn rheoli'r perygl llifogydd yn effeithiol ond gall fod yn rhaid i ni roi gweithrediadau pellach ar waith er mwyn cadw gam yng ngham â newid yn yr hinsawdd.**

Tueddir i gymhwyso'r polisi hwn mewn mannau ble'r ystyrir y rheolir y peryglon yn addas ar hyn o bryd, ond ble disgwylir i'r perygl gynyddu'n sylweddol yn y dyfodol. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai angen i ni wneud mwy yn y dyfodol er mwyn cyfyngu ar beth fyddai, fel arall, yn risg gynyddol. Bydd gweithredu ymhellach er mwyn lleihau'r perygl angen mwy o waith gwerthuso er mwyn asesu p'un ai oes dewisiadau sy'n gynaliadwy yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, yn ymarferol yn dechnegol ac y gellid eu cyfiawnhau'n economaidd.

---

### → Polisi 5

**Ardaloedd o berygl llifogydd canolig i uchel ble medrwn, yn gyffredinol, wneud mwy i leihau perygl llifogydd.**

Tueddir i gymhwyso'r polisi hwn i'r mannau hynny ble mae'r ddadl dros weithredu ymhellach er mwyn lleihau perygl llifogydd yn un gymhellol, er enghraifft ble ceir llawer o bobl mewn perygl uchel, neu ble mae newidiadau yn yr amgylchedd eisoes wedi cynyddu'r perygl. Bydd gweithredu ymhellach er mwyn lleihau'r perygl angen mwy o waith gwerthuso er mwyn asesu p'un ai oes dewisiadau sy'n gynaliadwy yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, yn ymarferol yn dechnegol ac y gellid eu cyfiawnhau'n economaidd.

---

### → Polisi 6

**Ardaloedd o berygl llifogydd isel i ganolig ble byddwn yn gweithredu gydag eraill er mwyn storio dŵr neu reoli dŵr ffo mewn mannau sy'n darparu gostyngiad cyffredinol mewn perygl llifogydd neu fuddion amgylcheddol.**

Tueddir i gymhwyso'r polisi hwn ble medrai cyfleoedd fodoli mewn rhai mannau i leihau'r perygl o lifogydd yn lleol neu ar raddfa ehangach mewn dalgylch trwy storio dŵr neu reoli dŵr ffo. Cymhwyswyd y polisi i ardal (ble ceir y potensial i gymhwyso'r polisi), ond cawsai ei weithredu mewn lleoliadau penodol o fewn yr ardal yn unig, ar ôl gwerthusiad ac ymgynghoriad mwy manwl.

---

# Ucheldiroedd Hafren a Chydlifiad Efyrynwy

## Ein partneriaid allweddol yw:

Cyngor Swydd Gaerlleon

Cyngor Sir Powys

Natural England

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Byrddau Draenio Mewnol (IDBs)

RSPB

NFU

NFU Cymru

y Gymdeithas Tir a Busnes Gwledig

y Comisiwn Coedwigaeth

Dŵr Hafren Trent

Perchnogion Tir

## Y materion o bwys yn yr is ardal hon

Mae'r is ardal hon yn cwmpasu rhannau uchaf dalgyloedd Hafren ac Efyrynwy. Gwledig ydyw gan mwyaf, ond mae ganddi ardaloedd trefol gan gynnwys Y Trallwng. Er bod yr is ardal hon yn amgylchynu Caersws a'r Drenewydd, rychwantir y ddwy dref ar wahân fel is ardal 3 oherwydd eu perygl llifogydd uwch. Mae'r is ardal hon yn cyfuno'r ddwy uned bolisi; Uned Bolisi 1,

Ucheldiroedd Hafren, ac Uned Bolisi 3 Cydlifiad Efyrynwy. Mae gan y ddwy uned bolisi nodweddion a blaenoriaethau tebyg ar gyfer rheoli perygl llifogydd.

Mae oddeutu 1,000 o eiddo mewn perygl llifogydd mewn digwydd â thebygolrwydd o 1% yn yr is ardal hon. Ni ragwelir bydd hyn yn cynyddu rhyw lawer yn y dyfodol. Ceir perygl llifogydd lleol o afonydd, y mae llawer ohono ym Meifod, Llanidloes a Phentre. Mae seilwaith hanfodol mewn perygl, gan gynnwys tri gwaith trin dŵr a thrin carthion; pum canolfan ymateb brys; wyth gosodiad trydan a nwy; cyfnewidfa deffon; a ffyrdd gan gynnwys yr A483, A458, A470 a'r A495.

Gellir rheoli'r risgiau uchod ar yr un pryd ag annog storio mwy o lifddwr ar orlifdiroedd nas datblygwyd er mwyn cynyddu gwanhad a lleihau'r perygl o lifogydd i gymunedau. Mae'r is ardal hon yn cyflwyno cyfle da ar gyfer storio, oherwydd bydd hyn o fudd i gymunedau'n lleol ac i lawr yr afon. Mae hyn oherwydd ceir llawer o gymunedau dan fygythiad i lawr yr afon ac mae'r llifoedd brig sy'n cyrraedd yma yn arbennig o uchel oherwydd y glawriad uchel (hyd at deirgwaith yn fwy nag a geir mewn ardaloedd i lawr yr afon) ym mynyddoedd Cymru.

Mae tueddiadau o waith dyn mewn dulliau o reoli a defnyddio

tir wedi cynyddu'r perygl llifogydd dros amser yn yr is ardal hon. Gan weithio gyda grwpiau lleol â diddordeb, mae angen i ni gyflwyno dulliau gwahanol o weithio er mwyn gwrthdroi'r tueddiadau hyn ac, yn ogystal, er mwyn helpu i offsetio'r perygl llifogydd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

## Gweledigaeth a pholisi dewisol

**Dewis Polisi 6** – Ardaloedd o berygl llifogydd isel i ganolig ble byddwn yn gweithredu gydag eraill er mwyn storio dŵr neu reoli dŵr ffo mewn mannau sy'n darparu gostyngiad cyffredinol mewn perygl llifogydd neu fuddion amgylcheddol.

Ein gweledigaeth tymor hir ar gyfer yr is ardal hon yw gosod fframwaith er mwyn cyflawni dull cynaliadwy o reoli perygl llifogydd sy'n ystyried swyddogaeth naturiol yr afon ac yn lleihau dibyniaeth hirdymor ar amddiffynfeydd dyrchafedig rhag llifogydd. Mae hyn yn cynnwys nodi cyfleoedd i ddefnyddio ardaloedd o orlifdir naturiol yn well er mwyn storio llifddyfroedd ac i wanhau dŵr glaw a fydd yn lleihau'r perygl o lifogydd o fewn yr is ardal hon ac i lawr yr afon.

Gallwn gymhwyso'r polisi hwn naill ai'n lleol i broblem llifogydd



neu gryn bellter i ffwrdd lle nad yw llifogydd yn broblem. Fodd bynnag, yr egwyddor tu ôl i'r polisi hwn yw ein bod yn symud llifogydd i fannau lle gallant ddwyn buddion yn eu sgil, sy'n lleihau'r perygl mewn ardaloedd lle maent yn broblem. Mae'n bosibl fydd hyn yn golygu y gallwn ni adfer gorlifdiroedd a gwella cynefinoedd, gan leihau effeithiau negyddol llifogydd mewn mannau eraill o fewn y dalgylch. Gall hyn gynnwys, yn ogystal, newid sut y defnyddiwn y tir er mwyn dal dŵr o fewn y rhan honno o'r dalgylch am gyfnod hwy, gan leihau'r perygl llifogydd mewn mannau eraill.

## Y negeseuon allweddol

- Ein bwriad yw dibynnu llai ar amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi'u codi oherwydd nid yw hyn yn gynaliadwy dros y tymor hir. Byddwn yn gwneud hyn trwy achub ar gyfleoedd i adfer lle storio llifddwr naturiol ar orlifdiroedd nas datblygwyd.
- Mae hwn yn le arbennig o dda ar gyfer storio llifddwr ar orlifdir nas datblygwyd. Byddai llawer o gymunedau'n elwa yma ac mewn mannau eraill, er enghraifft Meifod, Llanidloes,

Pentre a'r Amwythig.

## Gweithredoedd a gynigir er mwyn gweithredu'r dull dewisol o fynd ati

- Gwneud astudiaeth strategol er mwyn archwilio'r agweddau canlynol ar storio llifddwr yn y gorlifdir: gwneud y defnydd gorau o ardaloedd storio cyfredol; y potensial ar gyfer ardaloedd storio ychwanegol o fewn yn y gorlifdir nas datblygwyd.
- Annog arferion gorau gwledig a threfol o ran defnyddio a rheoli tir er mwyn adfer gorlifdiroedd naturiol mwy cynaliadwy ac er mwyn lleihau dŵr ffo.
- Codi ymwybyddiaeth o lifogydd ymhlith y cyhoedd a phartneriaid allweddol, yn arbennig gweithredwyr pwysig seilwaith, gan eu caniatáu nhw i baratoi'n well. Eu hannog i gyd i gynyddu gwytnwch a gallu adeiladau bregus, seilwaith a busnesau i wrthsefyll. Nodi cyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth lleol a fedrant elwa o greu mwy o fannau storio/gwlypdiroedd ac afon well.
- Adolygu pa mor effeithiol a chynaliadwy y mae pob amddiffynfa rhag llifogydd. Adolygu gweithrediadau cynnal a chadw er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur â pherygl llifogydd. Ffocysu ymdrechion ar warchod cymunedau a sicrhau eu bod yn gallu gwrthsefyll llifogydd yn well. Dylid nodi fod gwarchod ardaloedd mawr o dir amaethyddol yn y gorlifdir yn **dueddol o gynyddu perygl llifogydd ar gyfer cymunedau i lawr yr afon.**



↑ Efyrnwy a'r Gronfa

# Caersws a'r Drenewydd

## Ein partneriaid allweddol yw:

Cyngor Sir Powys

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Dŵr Hafren Trent

NFU Cymru

## Y materion o bwys yn yr is ardal hon

Trefol, gan mwyaf, yw'r is ardal hon, wedi'i hamgylchynu gan ardal wledig Ucheldiroedd Hafren, a rychwantir gan is ardal 1. Mae'n cwmpasu dim ond ardal Uned Bolisi 2 y CFMP.

Mae Caersws a'r Drenewydd yn ddi-ddoddef o fflachlifoedd a cheir oddeutu 1,000 o eiddo mewn perygl yn yr is ardal hon yn ystod digwyddiad â thebygolrwydd o 1%.

Ceir lefel gymharol uchel o berygl llifogydd o afonydd ac mae llifogydd dŵr wyneb yn broblem. Mae seilwaith hanfodol dan fygythiad yn cynnwys tri gosodiad trydan a nwy a ffyrdd gan gynnwys yr A483, A458, A470 a'r A495.

Mae tueddiadau o waith dyn mewn dulliau o reoli a defnyddio tir wedi cynyddu'r perygl llifogydd dros amser yn yr is ardal hon. Gan weithio gyda chyfranddalwyr lleol, mae angen i ni gyflwyno dulliau gwahanol o weithio a fedrant wrthdroi'r tueddiadau hyn ac, yn ogystal, er mwyn helpu i offsetio'r perygl llifogydd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal â hyn, mae'n bwysig y rheolir y gwaith datblygu a threfoli parhaus yn yr ardal yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw'r perygl o lifogydd yn cynyddu ymhellach ar draws yr is ardal hon.

## Gweledigaeth a pholisi dewisol

**Dewis Polisi 4** – Ardaloedd o berygl llifogydd isel, canolig neu uchel ble'r ydym eisoes yn rheoli'r perygl llifogydd yn effeithiol ond gall fod yn rhaid i ni roi gweithrediadau pellach ar waith er mwyn cadw gam yng ngham â newid yn yr hinsawdd.

Rydym wedi dewis y polisi hwn oherwydd er y rheolir y perygl yn addas ar hyn o bryd, disgwylir iddo gynyddu'n sylweddol dros y tymor hir. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai angen i ni wneud mwy yn y dyfodol er mwyn lleihau'r cynnydd disgwylidig mewn peryglon.

## Y negeseuon allweddol

- Mae llifogydd dŵr wyneb yn broblem bwysig a chynyddol. Rhaid ei rheoli ynghyd â ffynonellau eraill o lifogydd.
- Rhaid rheoli datblygu/ ailddatblygu er mwyn cadw perygl llifogydd i isafswm. Rhaid i ddulliau fod yn gynaliadwy dros y tymor hir. Er enghraifft, gwneud mwy o le ar gyfer afonydd trwy ardaloedd trefol trwy gyfrwng 'coridorau glas' (h.y. Adfer mynediad i lifddwr i striedi allweddol o orlifdir. Mae hyn yn gofyn bod ailddatblygu yn cael ei gyfyngu i ddulliau o ddefnyddio tir sy'n gydnaws â llifogydd e.e. parcdir.)
- Ni ellir dileu llifogydd yn gyfan gwbl ac felly mae angen i drigolion, perchnogion a busnesau reoli rhai o'r peryglon eu hunain. Er enghraifft, trwy gofrestru i dderbyn y gwasanaeth Rhybuddion Llinell Llifogydd Uniongyrchol (FWD) a chynlluniau wardeiniaid llifogydd; bod yn ymwybodol o gynlluniau argyfwng; ac addasu adeiladau bregus.

## Gweithredoedd a gynigir er mwyn gweithredu'r dull dewisol o fynd ati

- Datblygu dealltwriaeth well o lifogydd o ddŵr wyneb, o systemau draenio, ac o gyrsiau dŵr 'nad ydynt yn rhai mawr'. Cynhyrchu strategaeth ar gyfer gweithredu a buddsoddi, gan integreiddio'r rhain gyda phrif afonydd. Codi ymwybyddiaeth o lifogydd ymhlith partneriaid allweddol, gan gynnwys gweithredwyr seilwaith a'u hannog i baratoi'n well.
- Sicrhau nad yw gorlifdiroedd yn cael eu datblygu mewn modd anaddas. Dilyn dull Tan 15 o fynd ati ac ystyried cyfleoedd i ffeirio tir.
- Annog cydweddoldeb rhwng mannau agored trefol, a dulliau strategol o'u defnyddio mewn llifogydd. Er enghraifft, derbyn llifoedd afon gormodol a datblygu 'coridorau glas' – cyfleoedd i wneud lle i afonydd ymledu fel y ceir gorlifoedd.
- Adolygu pa mor effeithiol a chynaliadwy y mae pob amddiffynfa rhag llifogydd. Adolygu gweithrediadau cynnal a chadw er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur â pherygl llifogydd
- Annog adeiladau bregus, seilwaith a busnesau cyfredol neu arfaethedig i fod yn fwy gwydn a gallu gwrthsefyll llifogydd yn well.
- Codi ymwybyddiaeth o lifogydd ymhlith y cyhoedd a phartneriaid allweddol, gan gynnwys gweithredwyr pwysig seilwaith a'u hannog i baratoi'n well. Eu hannog i gyd i gynyddu gwytnwch a gallu adeiladau bregus, seilwaith a busnesau i wrthsefyll.
- Gwella cynefinoedd pysgod trwy addasu/tynnu rhwystrau, fel coredu, sy'n atal pysgod rhag symud yn rhydd.



↑ Hafren, Caersws

# Isafonydd Swydd Gaerlleon

## Ein partneriaid allweddol yw:

Cyngor Sir Gaerlleon

Cyngor Sir Powys

Cyngor Bwrdeistref Newcastle-under-Lyme. Cyngor Bwrdeistref Stafford a Chyngor Telford a Wrekin

Natural England

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Byrddau Draenio Mewnol (IDBs)

NFU

NFU Cymru

CLA

Dŵr Hafren Trent.

## Y materion o bwys yn yr is ardal hon

Mae rhan ddeheuol yr is ardal hon yn wledig, gan mwyaf. Mae ei rhan ogleddol yn cynnwys Croesoswallt, Wem, Market Drayton, Gobowen a Newport. Mae'r is ardal hon yn cyfuno dwy o unedau polisi'r CFMP oherwydd bod ganddynt nodweddion a blaenoriaethau tebyg ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Y ddwy uned yw: Uned Bolisi 4, Isafonydd De Swydd Gaerlleon, ac Uned Bolisi 5, Isafonydd Gogledd Swydd Gaerlleon.

Mae gan yr is ardal hon lefel gymharol isel o berygl llifogydd o afonydd, gydag oddeutu 485 o eiddo mewn perygl mewn digwyddiad â thebygolrwydd o 1%. Fodd bynnag, ceir perygl uwch o lifogydd o ganlyniad i ddŵr wyneb, yn arbennig mewn mannau fel Ellesmere, Croesoswallt, ac mewn pentrefi yn y de sydd wedi tyfu'n gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae seilwaith hanfodol sydd dan fygythiad yn cynnwys pedwar gwaith trin dŵr neu garthion, tri gosodiad trydan a nwy, ffyrdd gan gynnwys y B4386 a'r A488 i mewn i'r Amwythig a'r A483, A53, A5, A41 a'r A442, a'r llinell rheilffordd rhwng Amwythig a'r Drenewydd.

Mae tueddiadau o waith dyn mewn dulliau o reoli a defnyddio tir wedi cynyddu'r perygl llifogydd dros amser yn yr is ardal hon. Gan weithio gyda grwpiau lleol â diddordeb, mae angen i ni gyflwyno dulliau gwahanol o weithio er mwyn gwrthdroi'r tueddiadau hyn ac, yn ogystal, er mwyn helpu i offsetio'r perygl llifogydd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Yn ystod y 50 i 100 mlynedd nesaf, rhagwelir bydd y nifer o eiddo mewn perygl o lifogydd mewn digwyddiad â thebygolrwydd o 1% yn codi i oddeutu 558.

## Gweledigaeth a pholisi dewisol

**Dewis Polisi 2** – Ardaloedd o berygl llifogydd isel i ganolig ble medrwn, yn gyffredinol, leihau gweithredoedd rheoli perygl llifogydd cyfredol.

Rydym wedi dewis y polisi hwn ar gyfer mannau lle nad yw'r peryglon cyfredol nac yn y dyfodol yn gwarantu cymaint o ymyriad (er enghraifft ar gynnal a chadw amddiffynfeydd sy'n bodoli eisoes). Gallwn ganiatáu i'r perygl o lifogydd gynyddu'n naturiol dros amser mewn dull a reolir er mwyn i ni beidio â chreu peryglon annerbyniol. Mae gennym asedau yn eu lle nawr, a byddwn yn edrych ar y dewisiadau a'r amseriad ar gyfer dirwyn gwaith cynnal a chadw i ben neu dynnu amddiffynfeydd rhag llifogydd yn ôl lle bo hynny'n addas, trwy gyfrwng ein Cynlluniau Rheoli Asedau (SAMPs).

Er mai un effaith o'r polisi hwn yw caniatáu i'r perygl llifogydd gynyddu'n gyffredinol dros amser, er enghraifft oherwydd newid yn yr hinsawdd, byddwn yn cadw'r perygl i isafswm trwy annog trydydd partïon i leihau'r peryglon a achosir gan eu gweithgareddau hwy. Mae'n bosibl medrid cyflawni buddion o wella sut y defnyddir ac y rheolir tir mewn is ardaloedd eraill ymhellach i fyny'r afon, er enghraifft is ardal 1 lle mae'n bosibl y gellid cyflawni mwy o wanhau a storio llifogydd.

## Y negeseuon allweddol

- Ein bwriad yw dibynnu llai ar amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi'u codi oherwydd nid yw hyn yn gynaliadwy dros y tymor hir, trwy achub ar gyfleoedd i adfer lle storio llifddwr naturiol ar orlifdiroedd nas datblygwyd.
- Mae llifogydd dŵr wyneb yn broblem gynyddol. Awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol am reoli hyn, ond yn aml, rhaid ei integreiddio gydag asedau sefydliadau eraill, er enghraifft eu carthffosydd neu afonydd.
- Ni ellir dileu llifogydd yn gyfan gwbl ac felly mae angen i drigolion, perchnogion a busnesau reoli rhai o'r peryglon eu hunain. Er enghraifft, trwy gofrestru i dderbyn y gwasanaeth Rhybuddion Llinell Llifogydd Uniongyrchol (FWD) a chynlluniau wardeiniaid llifogydd; bod yn ymwybodol o gynlluniau argyfwng; ac addasu adeiladau bregus.

## Gweithredoedd a gynigir er mwyn gweithredu'r dull dewisol o fynd ati

- Annog arferion gorau gwledig a threfol o ran defnyddio a rheoli tir er mwyn adfer gorlifdiroedd naturiol mwy cynaliadwy ac er mwyn lleihau dŵr ffo.
- Sicrhau nad yw gorlifdiroedd yn cael eu datblygu mewn modd anaddas. Dilyn 'dull dilyniannol o fynd ati' PPS25 [TAN 15 yng Nghymru], ac ystyried cyfleoedd i ffeirio tir.
- Adolygu pa mor effeithiol a chynaliadwy y mae pob amddiffynfa rhag llifogydd. Adolygu gweithrediadau cynnal a chadw er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur â pherygl llifogydd
- Codi ymwybyddiaeth o lifogydd ymhlith y cyhoedd a phartneriaid allweddol, gan gynnwys gweithredwyr pwysig seilwaith a'u hannog i baratoi'n well. Eu hannog i gyd i gynyddu gwytnwch a gallu adeiladau bregus, seilwaith a busnesau i wrthsefyll.
- Datblygu dealltwriaeth well o lifogydd o ddŵr wyneb, o systemau draenio, ac o gyrsiau dŵr 'nad ydynt yn rhai mawr'. Cynhyrchu strategaeth ar gyfer gweithredu a buddsoddi, gan integreiddio'r rhain gyda phrif afonydd.
- Sicrhau fod y dŵr ffo o bob datblygiad arfaethedig yn cael ei gadw i isafswm. Er enghraifft, rhaid annog SUDS a'u targedu o fewn caniatadau cynllunio. Annog ôl-ffitio SuDS lle mae llifogydd dŵr wyneb eisoes yn broblem.
- Cefnogi gwelliannau ecolegol, er enghraifft, gall gwelliannau sy'n cyd-fynd â safle Ramsar Llynnoedd a Gweunydd Mawn y Canolbarth ymwneud â chodi'r lefel trwythiad.
- Cynnal systemau rhybuddio am lifogydd a chwilio am gyfleoedd i wella eu heffeithiolrwydd a'u rychwant.



↑ Rhwystrau llifogydd datodadwy Frankwell, Amwythig

# Coridor Hafren Ganol

## Ein partneriaid allweddol yw:

Cyngor Swydd Gaerlleon

Cyngor Dosbarth Bryniau Malvern

Cyngor Telford a Wrekin

Cyngor Dinas Caerwrangon

Cyngor Dosbarth Wychavon

Cyngor Dosbarth Fforest Wyre

Natural England

NFU

Dŵr Hafren Trent.

## Y materion o bwys yn yr is ardal hon

Mae'r is ardal hon yn wledig, gan mwyaf, ond mae'n cynnwys Amwythig, Ironbridge, Bridgnorth, Bewdley, Stourport a Chaerwrangon. Mae'n rhychwantu ardal Uned Bolisi 8 y CFMP.

Yn yr is ardal hon ceir oddeutu 6,050 o eiddo mewn perygl o lifogydd mewn digwyddiad â thebygolrwydd o 1%. Yn ogystal â'r perygl hwn o lifogydd o afonydd, ceir perygl llifogydd dŵr wyneb yn ogystal, yn arbennig yn yr ardaloedd trefol mwy o faint fel Caerwrangon.

Mae seilwaith hanfodol dan fygythiad yn cynnwys pedair canolfan ymateb brys, tri gwaith trin dŵr neu garthion, 15 gosodiad trydan a nwy, dau safle rheoli

peryglon damweiniau mawr (COMAH), tair cyfnewidfa deleffon, a phrifyrdd gan gynnwys yr A442, A49, A5, A5191 a'r A4025.

Mae tueddiadau o waith dyn mewn dulliau o reoli a defnyddio tir wedi cynyddu'r perygl llifogydd dros amser yn yr is ardal hon. Gan weithio gyda grwpiau lleol â diddordeb, mae angen i ni gyflwyno dulliau gwahanol o weithio er mwyn gwrthdroi'r tueddiadau hyn ac, yn ogystal, er mwyn helpu i offsetio'r perygl llifogydd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Dros y 50 i 100 mlynedd nesaf, o ganlyniad uniongyrchol i newid yn yr hinsawdd, amcangyfrifir bydd y nifer o eiddo mewn perygl o lifogydd mewn digwyddiad â thebygolrwydd o 1% yn cynyddu i oddeutu 6,400.

## Gweledigaeth a pholisi dewisol

**Dewis Polisi 4** – Ardaloedd o berygl llifogydd isel, canolig neu uchel ble'r ydym eisoes yn rheoli'r perygl llifogydd yn effeithiol ond gall fod yn rhaid i ni roi gweithrediadau pellach ar waith er mwyn cadw gam yng ngham â newid yn yr hinsawdd.

Rydym wedi dewis y polisi hwn oherwydd er y rheolir y perygl yn addas ar hyn o bryd, disgwylir iddo gynyddu'n sylweddol dros y tymor hir. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai angen i ni wneud mwy yn y dyfodol er mwyn lleihau'r cynnydd disgwylidig mewn peryglon.

## Y negeseuon allweddol

- Ein bwriad yw dibynnu llai ar amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi'u codi oherwydd nid yw hyn yn gynaliadwy dros y tymor hir, trwy achub ar gyfleoedd i adfer lle storio llifddwr naturiol ar orlifddiroedd nas datblygwyd.
- Mae llifogydd dŵr wyneb yn broblem gynyddol. Awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol am reoli hyn, ond yn aml, rhaid ei integreiddio gydag asedau sefydliadau eraill, er enghraifft eu carthffosydd neu afonydd.
- Rhaid rheoli datblygu/ ailddatblygu er mwyn cadw perygl llifogydd i isafswm. Rhaid i ddulliau fod yn gynaliadwy dros y tymor hir. Er enghraifft, gwneud mwy o le ar gyfer afonydd trwy ardaloedd trefol trwy gyfrwng 'coridorau glas' (h.y. Adfer mynediad i lifddwr i stribedi allweddol o orlifdir. Mae hyn yn gofyn bod ailddatblygu yn cael ei gyfyngu i ddulliau o ddefnyddio tir sy'n gydnaws â llifogydd e.e. parcdir.)
- Ni ellir dileu llifogydd yn gyfan gwbl ac felly mae angen i drigolion, perchnogion a busnesau reoli rhai o'r peryglon eu hunain. Er enghraifft, trwy gofrestru i dderbyn y gwasanaeth Rhybuddion Llinell Llifogydd Uniongyrchol (FWD) a chynlluniau wardeiniaid llifogydd; bod yn ymwybodol o gynlluniau argyfwng; ac addasu adeiladau bregus.

## Gweithredoedd a gynigir er mwyn gweithredu'r dull dewisol o fynd ati

- Sicrhau nad yw gorlifdiroedd yn cael eu datblygu mewn modd anaddas. Dilyn 'dull dilyniannol o fynd ati' PPS 25, ac ystyried cyfleoedd i ffeirio tir.
- Annog cydweddoldeb rhwng mannau agored trefol, a'u gallu i wneud lle i afonydd ymledu fel y ceir gorlifoedd. Un enghraifft o ddefnydd sy'n gydnaws â llifogydd yw meysydd chwarae. Datblygu strategaethau er mwyn creu 'coridorau glas' trwy ddatblygu/ailldatblygu er mwyn cysylltu'r mannau hyn sy'n gydnaws â llifogydd.
- Annog arferion gorau gwledig a threfol o ran defnyddio a rheoli tir er mwyn adfer gorlifdiroedd naturiol mwy cynaliadwy ac er mwyn lleihau dŵr ffo.
- Adolygu pa mor effeithiol a chynaliadwy y mae pob amddiffynfa rhag llifogydd. Adolygu gweithrediadau cynnal a chadw er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur â pherygl llifogydd. Ffocysu ymdrechion ar warchod cymunedau a sicrhau eu bod yn fwy gwydn yn wyneb llifogydd. Dylid nodi fod gwarchod ardaloedd mawr o dir amaethyddol yn y gorlifdir yn dueddol o gynyddu perygl llifogydd ar gyfer cymunedau i lawr yr afon.
- Datblygu dealltwriaeth well o lifogydd o ddŵr wyneb, o systemau draenio, ac o gyrsiau dŵr 'nad ydynt yn rhai mawr'. Cynhyrchu strategaeth ar gyfer gweithredu a buddsoddi, gan integreiddio'r rhain gyda phrif afonydd.
- Codi ymwybyddiaeth o lifogydd ymhlith y cyhoedd a phartneriaid allweddol, yn arbennig gweithredwyr pwysig seilwaith, gan eu caniatáu nhw i baratoi'n well. Eu hannog i gyd i gynyddu gwytnwch a gallu adeiladau bregus, seilwaith a busnesau i wrthsefyll.
- Cynnal systemau rhybuddio am lifogydd a chwilio am gyfleoedd i wella effeithiolrwydd a rychwant.
- Ymfyn am welliannau ecolegol.



↑ Amddiffynfeydd rhag llifogydd Bewdley, Hafren

# Telford, y Wlad Ddu, Bromsgrove, Kidderminster a Chlwstwr Coventry

## Ein partneriaid allweddol yw:

Awdurdodau Lleol

Dyfrffyrdd Prydain

Dŵr Hafren Trent

## Y materion o bwys yn yr is ardal hon

O'i chymharu â'r rhan fwyaf o'n hls ardaloedd eraill, trefol gan mwyaf yw'r is ardal hon, ac mae'n cynnwys yr ardaloedd trefol mawr: Coventry, Leamington Spa, Telford, Dudley, Halesowen, Stourbridge, Wolverhampton [rhan yn unig], Bromsgrove, Kidderminster a Droitwich o fewn ei ffiniau. Mae'r is-ardal hon yn cyfuno tair o Unedau Polisi'r CFMP (UP): UP 6 Telford a'r Ardal Ddu; UP 7 Kidderminster a Bromsgrove; ac UP 13 Clwstwr Coventry.

Ledled yr is ardal hon ceir lefel gymharol uchel o berygl llifogydd o afonydd gyda 11,540 o eiddo mewn perygl mewn digwyddiad â thebygolrwydd o 1%. Mewn nifer o fannau, mae llifogydd dŵr wyneb yn cyflwyno cryn risg yn ogystal gyda manau fel Albrighton yn ogystal â'r rheiny a grybwyllwyd eisoes yn arbennig o fregus.

Cynllunnir cryn dipyn o waith datblygu mewn nifer o ardaloedd (er enghraifft yn Rugby ac yn Redditch), ond nid oes gan rai o'r safleoedd potensial a nodwyd ddigon o amddiffyniad rhag perygl llifogydd.

Ar y datblygwyr fydd y cyfrifoldeb dros ddatrys hyn gyda'r awdurdod cynllunio lleol. Gellir cyfiawnhau buddsoddiad y Llywodraeth ar gyfer rheoli perygl i'r amgylchedd adeiledig cyfredol o dan amgylchiadau penodol, ni ddylid ei ffocysu ar gynnwys ac addasu datblygiadau yn y dyfodol. Dylai lleoliadau ar gyfer datblygu gael eu dethol ar sail perygl llifogydd isel, a fydd yn sicrhau fod gan ddatblygiadau gynlluniau sy'n gydnaws â llifogydd a SuDs.

Mae tueddiadau o waith dyn mewn dulliau o reoli a defnyddio tir wedi cynyddu'r perygl llifogydd dros amser yn yr is ardal hon. Gan weithio gyda grwpiau lleol â diddordeb, mae angen i ni gyflwyno dulliau gwahanol o weithio er mwyn gwrthdroi'r tueddiadau hyn ac, yn ogystal, er mwyn helpu i offsetio'r perygl llifogydd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Dros y 50 i 100 mlynedd nesaf, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, amcangyfrifir bydd y nifer o eiddo mewn perygl o lifogydd mewn digwyddiad â thebygolrwydd o 1% yn cynyddu i oddeutu 13,000.

## Gweledigaeth a pholisi dewisol

**Dewis Polisi 5** – Ardaloedd o berygl llifogydd canolig i uchel ble medrwn, yn gyffredinol, wneud mwy i leihau perygl llifogydd.

Nod y polisi hwn yw lleihau'r perygl ble mae'r perygl llifogydd cyfredol yn

rhy uchel. Mae angen i ni weithredu yn y tymor byr er mwyn gostwng y lefel hwn o berygl.


## Y negeseuon allweddol

- Mae llifogydd dŵr wyneb yn broblem gynyddol. Awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol am reoli hyn, ond yn aml, rhaid ei integreiddio gydag asedau sefydliadau eraill, er enghraifft eu carthffosydd neu afonydd.
- Rhaid rheoli datblygu/ailldatblygu er mwyn cadw perygl llifogydd i isafswm. Rhaid i ddulliau fod yn gynaliadwy dros y tymor hir. Er enghraifft, gwneud mwy o le ar gyfer afonydd trwy ardaloedd trefol trwy gyfrwng 'coridorau glas' (h.y. Adfer mynediad i lifddwr i sribedi allweddol o orlifdir. Mae hyn yn gofyn bod ailldatblygu yn cael ei gyfyngu i ddulliau o ddefnyddio tir sy'n gydnaws â llifogydd e.e. parcdir.)
- Ein bwriad yw i offsetio'r perygl llifogydd cynyddol o dueddiadau gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, trwy achub ar gyfleoedd i adfer lle storio lifddwr naturiol ar orlifdiroedd nas datblygwyd.
- Ni ellir dileu llifogydd yn gyfan gwbl ac felly mae angen i drigolion, perchnogion a busnesau reoli rhai o'r peryglon eu hunain. Er enghraifft, trwy gofrestru i dderbyn y gwasanaeth Rhybuddion Llinell Llifogydd Uniongyrchol (FWD) a chynlluniau wardeiniaid llifogydd; bod yn ymwybodol o gynlluniau argyfwng; ac addasu adeiladau bregus.



## Gweithredoedd a gynigir er mwyn gweithredu'r dull dewisol o fynd ati

- Sicrhau nad yw gorlifdiroedd yn cael eu datblygu mewn modd anaddas. Dilyn 'dull dilyniannol o fynd ati' PPS 25, ac ystyried cyfleoedd i ffeirio tir.
- Annog cydweddoldeb rhwng mannau agored trefol, a'u gallu i wneud lle i afonydd ymledu fel y ceir gorlifoedd. Un enghraifft o ddefnydd sy'n gydnaws â llifogydd yw meysydd chwarae. Datblygu strategaethau er mwyn creu 'coridorau glas' trwy ddatblygu/ailldatblygu er mwyn cysylltu'r mannau hyn sy'n gydnaws â llifogydd.
- Codi ymwybyddiaeth o lifogydd ymhlith y cyhoedd a phartneriaid allweddol, gan gynnwys gweithredwyr pwysig seilwaith a'u hannog i baratoi'n well. Eu hannog i gyd i gynyddu gwytnwch a gallu adeiladau bregus, seilwaith a busnesau i wrthsefyll.
- Datblygu dealltwriaeth well o lifogydd o ddŵr wyneb, o systemau draenio, ac o gyrsiau dŵr 'nad ydynt yn rhai mawr'. Cynhyrchu strategaeth ar gyfer gweithredu a buddsoddi, gan integreiddio'r rhain gyda phrif afonydd, yn arbennig ar gyfer Coventry a Leamington Spa. Awdurdodau lleol i ddatblygu Cynlluniau Rheoli Dŵr Wyneb ar gyfer ardaloedd Bromsgrove, Droitwich a Kidderminster. Cymhwysu gwersi o gynlluniau peilot Draeniad Trefol Integredig, er enghraifft Telford a Wrekin.
- Adolygu pa mor effeithiol a chynaliadwy y mae pob amddiffynfa rhag llifogydd. Adolygu gweithrediadau cynnal a chadw er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur â pherygl llifogydd. Rheoli tipio anghyfreithlon [ar orlifdiroedd ac mewn sianelau]. Rhwystro gormod o silt rhag crynhoi mewn sianelau artiffisial [Naill ai drwy addasu sianelau neu drwy ddadsiltio}. Ffocysu ar dagfeydd. Rychwantir cyrsiau dŵr yn Coventry gan y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Gofod Gwyrdd.
- Cynnal systemau rhybuddio am lifogydd a chwilio am gyfleoedd i wella effeithiolrwydd a rychwant.
- Gwneud asesiad o'r cynllun i gamlesu Salwarpe [o amgylch Droitwich ac ati] o safbwynt perygl llifogydd.



↑ Ironbridge, Hafren

# Coridor Hafren Isaf, a Dalgylch Leadon

## Ein partneriaid allweddol yw:

Cyngor Dosbarth Fforest y Ddena

Cyngor Swydd Henffordd

Cyngor Dosbarth Bryniau Malvern

Cyngor Bwrdeistref Tewkesbury

Cyngor Dosbarth Wychavon

Natural England

Byrddau Draenio Mewnol (IDBs)

NFU

CLA

Dŵr Hafren Trent.

## Y materion o bwys yn yr is ardal hon

Mae'r is ardal hon yn wledig gan mwyaf, ond mae'n cynnwys Ledbury a Malvern. Mae'r is ardal hon yn cyfuno dwy o unedau polisi'r CFMP: Uned Bolisi 10 Coridor Hafren Isaf, ac Uned Bolisi 8 Dalgylch Leadon oherwydd eu bod yn agos at ei gilydd yn ddaearyddol ac mae ganddynt nodweddion a blaenoriaeth tebyg ar gyfer rheoli perygl llifogydd.

Ceir lefel gymharol isel o berygl llifogydd o afonydd, yn gyffredinol mewn llecynnau bach sydd weddol

bell oddi wrth ei gilydd. Rhwng popeth ceir oddeutu 500 eiddo mewn perygl o lifogydd mewn digwyddiad â thebygolrwydd o 1%, fodd bynnag ceir perygl llifogydd dŵr wyneb hefyd, mewn mannau fel Ledbury. Mae seilwaith hanfodol dan fygythiad yn cynnwys: pedwar gwaith trin dŵr a charthion, dau osodiad nwy a thrydan, un gyfnewidfa deffon, a ffyrdd gan gynnwys yr M50, A417, A449, A4104 a'r B4215.

Mae tueddiadau o waith dyn mewn dulliau o reoli a defnyddio tir wedi cynyddu'r perygl llifogydd dros amser yn yr is ardal hon. Gan weithio gyda grwpiau lleol â diddordeb, mae angen i ni gyflwyno dulliau gwahanol o weithio er mwyn gwrthdroi'r tueddiadau hyn ac, yn ogystal, er mwyn helpu i offsetio'r perygl llifogydd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Dros y 50 i 100 mlynedd nesaf, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, amcangyfrifir bydd y nifer o eiddo mewn perygl o lifogydd mewn digwyddiad â thebygrwydd o 1% yn cynyddu i oddeutu 700.

## Gweledigaeth a pholisi dewisol

**Dewis Polisi 2** – Ardaloedd o berygl llifogydd isel i ganolig ble

medrwn, yn gyffredinol, leihau gweithrediadau rheoli perygl llifogydd cyfredol.

Rydym wedi dewis y polisi hwn ar gyfer mannau lle nad yw'r peryglon cyfredol nac yn y dyfodol yn gwarantu cymaint o ymyriad (er enghraifft ar gynnal a chadw amddiffynfeydd sy'n bodoli eisoes) ac nid yw, oherwydd hyn, yn werth parhau i'w wneud. Gallwn ganiatáu i'r perygl o lifogydd gynyddu'n naturiol dros amser mewn dull a reolir er mwyn i ni beidio â chreu peryglon annerbyniol. O dan y polisi hwn byddem yn edrych ar y dewisiadau a'r amseriad ar gyfer dirwyn gwaith cynnal a chadw i ben neu dynnu amddiffynfeydd rhag llifogydd yn ôl yn ein Cynlluniau Rheoli Asedau (SAMPS).

Er mai un effaith o'r polisi hwn yr i ganiatáu i'r perygl llifogydd gynyddu'n gyffredinol dros amser, er enghraifft oherwydd newid yn yr hinsawdd, byddwn yn cadw'r perygl i isafswm trwy annog trydydd partïon i leihau'r peryglon a achosir gan eu gweithgareddau hwy. Mae'n bosibl medrid cyflawni buddion o wella sut y defnyddir ac y rheoli tir mewn is ardaloedd eraill ymhellach i fyny'r afon, er enghraifft is ardal 1 lle mae'n bosibl y gellid cyflawni mwy o wanhau a storio llifogydd.

## Y negeseuon allweddol

- Ein bwriad yw dibynnu llai ar amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi'u codi oherwydd nid yw hyn yn gynaliadwy dros y tymor hir, trwy achub ar gyfleoedd i adfer lle storio llifddwr naturiol ar orlifdiroedd nas datblygwyd. Mae basn Leigh Court i'r gogledd o Gaerloyw ar Chelt yn ardal storio naturiol eang.
- Mae llifogydd dŵr wyneb yn broblem gynyddol. Awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol am reoli hyn, ond yn aml, rhaid ei integreiddio gydag asedau sefydliadau eraill, er enghraifft eu carthffosydd neu afonydd.

## Gweithredoedd a gynigir er mwyn gweithredu'r dull dewisol o fynd ati

- Annog arferion gorau gwledig a threfol o ran defnyddio a rheoli tir er mwyn adfer gorlifdiroedd naturiol mwy cynaliadwy ac er mwyn lleihau dŵr ffo.
- Codi ymwybyddiaeth o lifogydd ymhlith y cyhoedd a phartneriaid allweddol, yn arbennig gweithredwyr pwysig seilwaith, gan eu caniatáu nhw i baratoi'n well. Eu hannog i gyd i gynyddu gwytnwch a gallu adeiladau bregus, seilwaith a busnesau i wrthsefyll
- Sicrhau nad yw gorlifdiroedd yn cael eu datblygu mewn modd anaddas. Dilyn 'dull dilyniannol o fynd ati' PPS 25, ac ystyried cyfleoedd i ffeirio tir.
- Adolygu pa mor effeithiol a chynaliadwy y mae amddiffynfeydd rhag llifogydd. Sicrhau fod gweithrediadau cynnal a chadw yn gymesur â pherygl llifogydd. Yng Nghoridor Hafren ceir amddiffynfeydd wedi'u codi ym Masn Chelt sy'n gwarchod tir amaethyddol yn bennaf. Mae angen adolygu'r rhain er mwyn canfod pa mor effeithiol ydynt a pha effaith a gânt i lawr yr afon.
- Edrych am gyfleoedd i wella cyrsiau dŵr ble byddai hynny o fudd i bysgodfeydd (yn enwedig eog.) Ystyried effaith gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ar SSSIs, er enghraifft Malthouse Farm Meadows.



↑ Coridor Hafren Isaf

# Avon Uchaf

## Ein partneriaid allweddol yw:

Cyngor Dosbarth Harborough

Cyngor Bwrdeistref Rugby

Cyngor Dosbarth Stratford-on-Avon

Cyngor Dosbarth Warwick

Cyngor Dosbarth Daventry

Natural England

RSPB

NFU

CLA

## Y materion o bwys yn yr is ardal hon

Mae'r is ardal hon yn wledig, gan mwyaf, ond mae hefyd yn cynnwys Lutterworth a Southam. Mae'n amgylchynu Rugby, a rychwantir ar wahân yn is ardal 8 oherwydd gan ei bod yn ddinas mae ei hamgylchiadau, materion perygl llifogydd a nodweddion yn wahanol. Felly, mae'r is ardal hon yn rhychwantu Uned Bolisi 14 y CFMP yn unig.

Ceir lefel gymharol isel iawn o berygl llifogydd o afonydd, gyda llai na 190 o eiddo mewn perygl o ddigwyddiad â thebygolrwydd o 1%. Y mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn Yelvertoft a Willoughby. Mae seilwaith hanfodol dan fygythiad yn cynnwys dau waith trin dŵr a charthion a ffyrdd gan gynnwys y A425, A426, A423, A428, M1 a'r M6.

Mae perygl llifogydd dŵr wyneb yn ogystal yn yr is ardal hon.

Gellir rheoli'r risgiau uchod ar yr un pryd ag annog storio llifddwr ar orlifdiroedd nad datblygwyd er mwyn cynyddu gwanhau a lleihau'r perygl llifogydd i gymunedau. Mae'r is ardal hon yn cyflwyno cyfle da i storio, oherwydd bydd o fudd i gymunedau'n lleol ac i lawr yr afon.

Mae tueddiadau o waith dyn mewn dulliau o reoli a defnyddio tir wedi cynyddu'r perygl llifogydd dros amser yn yr is ardal hon. Gan weithio gyda grwpiau lleol â diddordeb, mae angen i ni gyflwyno dulliau gwahanol o weithio er mwyn gwrthdroi'r tueddiadau hyn ac, yn ogystal, er mwyn helpu i offsetio'r perygl llifogydd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Dros y 50 i 100 mlynedd nesaf, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, amcangyfrifir bydd y nifer o eiddo mewn perygl o lifogydd mewn digwyddiad â thebygrwydd o 1% yn cynyddu i oddeutu 210.

## Gweledigaeth a pholisi dewisol

**Dewis Polisi 6** – Ardaloedd o berygl llifogydd isel i ganolig ble byddwn yn gweithredu gydag eraill er mwyn storio dŵr neu reoli dŵr ffo mewn lleoliadau sy'n darparu gostyngiad cyffredinol mewn perygl llifogydd neu fuddion amgylcheddol.

Gallwn gymhwyso'r polisi hwn naill ai'n lleol i broblem llifogydd neu gryn bellter i ffwrdd lle nad yw llifogydd yn broblem. Fodd bynnag, yr egwyddor tu ôl i'r polisi hwn yw ein bod yn symud llifogydd i fannau lle gallant ddwyn buddion yn eu sgil, sy'n lleihau'r perygl mewn ardaloedd lle maent yn broblem. Mae'n bosibl fydd hyn yn golygu y gallwn ni adfer gorlifdiroedd a gwella cynefinoedd, gan leihau effeithiau negyddol llifogydd mewn mannau eraill o fewn y dalgylch. Gall hyn gynnwys, yn ogystal, newid sut y defnyddiwn y tir er mwyn dal dŵr o fewn y rhan honno o'r dalgylch am gyfnod hwy, gan leihau'r perygl llifogydd mewn mannau eraill.

## Y negeseuon allweddol

- Ein bwriad yw dibynnu llai ar amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi'u codi oherwydd nid yw hyn yn gynaliadwy dros y tymor hir, trwy achub ar gyfleoedd i adfer lle storio llifddwr naturiol ar orlifdiroedd nas datblygwyd. Byddai hyn o fudd i lawer o gymunedau yma ac mewn mannau eraill, er enghraifft Yelvertoft, Willoughby, Rugby a Leamington Spa.
- Mae llifogydd dŵr wyneb yn broblem gynyddol. Awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol am reoli hyn, ond yn aml, rhaid ei integreiddio gydag asedau sefydliadau eraill, er enghraifft eu carthffosydd neu afonydd.

## Gweithredoedd a gynigir er mwyn gweithredu'r dull dewisol o fynd ati

- Cynnal systemau rhybuddio am lifogydd a chwilio am gyfleoedd i wella effeithiolrwydd a rychwant. Er enghraifft, ystyried ehangu'r rychwant ar gyfer Southam a Clay Coton.
- Adolygu pa mor effeithiol a chynaliadwy y mae pob amddiffynfa rhag llifogydd. Adolygu gweithrediadau cynnal a chadw er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur â pherygl llifogydd, er enghraifft ar gyfer Yelvertoft a Willoughby.
- Gwneud astudiaeth strategol er mwyn archwilio'r agweddau canlynol ar storio llifddwr yn y gorlifdir: gwneud y defnydd gorau o ardaloedd storio cyfredol; y potensial ar gyfer ardaloedd storio ychwanegol o fewn y gorlifdir nas datblygwyd. Dylai'r astudiaeth rychwantu cynnwys storio fel rhan o'r gwaith i adfer chwareli ar ddiwedd eu hoes weithredol.
- Annog arferion gorau gwledig o ran defnyddio a rheoli tir er mwyn adfer gorlifdiroedd naturiol mwy cynaliadwy a lleihau dŵr ffo.



↑ Avon

# Avon Ganol, Isafonydd, Arrow ac Alne, Redditch, Rugby a Teme

## Ein partneriaid allweddol yw:

Awdurdodau Lleol

CLA

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Comisiwn Coedwigaeth

Natural England

NFU

Dŵr Hafren Trent

## Y materion o bwys yn yr is ardal hon

Mae'r is ardal hon, yr un fwyaf o fewn CFMP Hafren, yn amrywio'n fawr iawn o ran sut y defnyddir tir a'i chymeriad. Er enghraifft, er ei bod yn wledig, gan mwyaf, gan gwmpasu lleoliadau fel Knighton, Craven Arms a Llwydlo, mae llawer o ganolfannau trefol mawr yn ogystal fel Rugby, Redditch ac Alcester o fewn ffiniau'r is ardal hon. Mae'r is-ardal hon yn cyfuno chwech o Unedau Polisi'r CFMP (UP): UP 6 Redditch; UP 11 Arrow ac Alne; UP 12 Avon Ganol; UP 15 Rugby; UP16 Isafonydd Avon; ac UP 19 Teme.

Ledled yr is ardal hon, ceir lefel canolig o berygl llifogydd o afonydd gydag oddeutu 5,330 o eiddo mewn perygl mewn digwyddiad â thebygolrwydd o 1%. Mae

cryn berygl llifogydd dŵr wyneb hefyd mewn nifer o fannau, gyda Henley-in-Arden a Wellesbourne yn arbennig o fregus.

Cynllunnir cryn dipyn o waith datblygu mewn nifer o ardaloedd (er enghraifft yn Rugby ac yn Redditch), ond nid oes gan rai o'r safleoedd potensial a nodwyd ddigon o amddiffyniad rhag perygl llifogydd. Ar y datblygwyr fydd y cyfrifoldeb dros ddatrys hyn gyda'r awdurdod cynllunio lleol. Gellir cyfiawnhau buddsoddiad y Llywodraeth ar gyfer rheoli perygl i'r amgylchedd adeiledig cyfredol o dan amgylchiadau penodol, ni ddylid ei ffocysu ar gynnwys ac addasu datblygiadau yn y dyfodol. Dylai lleoliadau ar gyfer datblygu gael eu dethol ar sail perygl llifogydd isel, a fydd yn sicrhau fod gan ddatblygiadau gynlluniau sy'n gydnaws â llifogydd a SuDs.

Mae tueddiadau o waith dyn mewn dulliau o reoli a defnyddio tir wedi cynyddu'r perygl llifogydd dros amser yn yr is ardal hon. Gan weithio gyda grwpiau lleol â diddordeb, mae angen i ni gyflwyno dulliau gwahanol o weithio er mwyn gwrthdroi'r tueddiadau hyn ac, yn ogystal, er mwyn helpu i offsetio'r perygl llifogydd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Dros y 50 i 100 mlynedd nesaf, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, amcangyfrifir bydd y nifer o eiddo

mewn perygl o lifogydd mewn digwyddiad â thebygrwydd o 1% yn cynyddu i oddeutu 6,360.

## Gweledigaeth a pholisi dewisol

**Dewis Polisi 3** – Ardaloedd o berygl llifogydd isel i ganolig lle'r ydym yn gyffredinol yn rheoli perygl llifogydd cyfredol yn effeithiol.

Rydym wedi dewis y polisi hwn oherwydd rheolir y peryglon yn addas ar hyn o bryd ac ni ddisgwylir i'r perygl o lifogydd gynyddu rhyw lawer dros y tymor hir. Efallai bydd angen i ni adolygu p'un ai beth a wnawn yn awr yw'r dull gorau o reoli'r perygl yn y tymor hwy, ond rydym yn hyderus bod angen rheoli'r peryglon.

Gall y polisi hwn arwain i arolwg o'r gwasanaethau rhybuddion llifogydd cyfredol, a/neu sut byddwn yn rheoli asedau a fedrant fod yn eu lle eisoes.

## Y negeseuon allweddol

- Ein bwriad yw dibynnu llai ar amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi'u codi oherwydd nid yw hyn yn gynaliadwy dros y tymor hir, trwy achub ar gyfleoedd i adfer lle storio llifddwr naturiol ar orlifddiroedd nas datblygwyd.
- Mae llifogydd dŵr wyneb yn broblem gynyddol. Awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol am

reoli hyn, ond yn aml, rhaid ei integreiddio gydag asedau sefydliadau eraill, er enghraifft eu carthffosydd neu afonydd.

- Ni ellir dileu llifogydd yn gyfan gwbl ac felly mae angen i drigolion, perchnogion a busnesau reoli rhai o'r peryglon eu hunain. Er enghraifft, trwy gofrestru i dderbyn y gwasanaeth Rhybuddion Llinell Llifogydd Uniongyrchol (FWD) a chynlluniau wardeiniaid llifogydd; bod yn ymwybodol o gynlluniau argyfwng; ac addasu adeiladau bregus.
- Rhaid rheoli datblygu/ailldatblygu er mwyn cadw perygl llifogydd i isafswm. Rhaid i ddulliau fod yn gynaliadwy dros y tymor hir. Er enghraifft, gwneud mwy o le ar gyfer afonydd trwy ardaloedd trefol trwy gyfrwng 'coridorau glas' (h.y. Adfer mynediad i lifddwr i stribedi allweddol o orlifdir. Mae hyn yn gofyn bod ailldatblygu yn cael ei gyfyngu i ddulliau o ddefnyddio tir sy'n gydnaws â llifogydd e.e. parcdir.)
- Mae rhai safleoedd 'cadwraeth ddyfrol' dynodedig mewn cyflwr anffafriol (er enghraifft SSSI Teme a SAC Clun). Rhaid newid gweithgareddau sy'n effeithio ar y safleoedd hyn er mwyn gwella eu cyflwr.

## Gweithredoedd a gynigir er mwyn gweithredu'r dull dewisol o fynd ati

- Annog arferion gorau gwledig a threfol o ran defnyddio a rheoli tir er mwyn adfer gorlifdiroedd naturiol mwy cynaliadwy ac er mwyn lleihau dŵr ffo.
- Sicrhau fod y dŵr ffo o bob datblygiad arfaethedig yn cael ei gadw i isafswm. Er enghraifft, rhaid annog SUDS a'u targedu o fewn caniatadau cynllunio. Annog ôl-ffitio SuDS lle mae llifogydd dŵr wyneb eisoes yn broblem.
- Codi ymwybyddiaeth o lifogydd ymhlith y cyhoedd a phartneriaid allweddol, yn arbennig gweithredwyr pwysig seilwaith, gan eu caniatáu nhw i baratoi'n well. Eu hannog i gyd i gynyddu gwytnwch a gallu adeiladau bregus, seilwaith a busnesau i wrthsefyll.
- Cynnal systemau rhybuddio am lifogydd a chwilio am gyfleoedd i wella effeithiolrwydd a rhychwant.
- Sicrhau nad yw gorlifdiroedd yn cael eu datblygu mewn modd anaddas. Dilyn 'dull dilyniannol o fynd ati' PPS 25 ac ystyried cyfleoedd i ffeirio tir.
- Annog cydweddoldeb rhwng mannau agored trefol, a'u gallu i wneud lle i afonydd ymledu fel y ceir gorlifoedd. Un enghraifft o ddefnydd sy'n gydnaws â llifogydd yw meysydd chwarae. Gwerthuso strategaethau er mwyn creu 'coridorau glas' trwy ddatblygu/ailldatblygu er mwyn cysylltu'r mannau hyn sy'n gydnaws â llifogydd.
- Datblygu dealltwriaeth well o lifogydd o ddŵr wyneb, o systemau draenio, ac o gyrsiau dŵr 'nad ydynt yn rhai mawr'. Cynhyrchu strategaeth ar gyfer gweithredu a buddsoddi, gan integreiddio'r rhain gyda phrif afonydd. Awdurdodau lleol i ddatblygu Cynlluniau Rheoli Dŵr Wyneb ar gyfer tu mewn i ac o amgylch Rugby.
- Cefnogi gwelliannau ecolegol. Mae enghreifftiau o hyn cynnwys Prosiect Gwlypdir Hafren ac Avon; tri SSSI afonol Natural England; AONB y Cotswolds.
- Adolygu pa mor effeithiol a chynaliadwy y mae amddiffynfeydd rhag llifogydd.
- Cynnal systemau rhybuddio am lifogydd a chwilio am gyfleoedd i wella effeithiolrwydd a rhychwant.



↑ Pwll cydbwysio Llyn Dyffryn Avon ac Arrow

# Tewkesbury, Cheltenham a Gogledd Ddwyrain Caerloyw

## Ein partneriaid allweddol yw:

Awdurdodau lleol

Dŵr Hafren Trent

Natural England

Byrddau Draenio Mewnol (IDBs)

## Y materion o bwys yn yr is ardal hon

Trefol, gan mwyaf yw'r is ardal hon ac mae'n cynnwys Tewkesbury, Cheltenham Bishops Cleeve a Gogledd Ddwyrain Caerloyw. Mae'n cyfuno dwy o unedau polisi'r brif CFMP; Uned Bolisi 17 Tewkesbury, ac Uned Bolisi 20 Cheltenham a Gogledd Ddwyrain Caerloyw oherwydd bod ganddynt rai nodweddion a blaenoriaethau tebyg ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Rhychwantir gweddill Caerloyw gan CFMP Isafonydd Llanwol Hafren.

Ceir lefel gymharol uchel o berygl llifogydd o afonydd, y mae'r rhan fwyaf ohono yn Cheltenham, Caerloyw a Tewkesbury, gydag oddeutu 3,350 o eiddo mewn perygl mewn digwyddiad llifogydd â thebygolrwydd o 1%. Ceir cryn berygl llifogydd dŵr wyneb yn ogystal, y mae llawer ohono hefyd yn Cheltenham a Tewkesbury. Mae seilwaith hanfodol dan fgythyriad yn cynnwys gwaith trin dŵr Mythe, dwy ganolfan ymateb brys, saith gosodiad trydan a nwy, un gyfnewidfa deffon a darnau o ffordd gan gynnwys yr A40, A438, A4019, A46, A38 a'r M5.

Mae llofoedd mewn rhai is-ddalgylchoedd yn codi'n gyflym dros ben ac nid yw rhybuddio cyfredol am lifogydd yn ymarferol mewn rhai manau.

Cynllunnir cryn dipyn o waith datblygu, ond nid oes gan rai o'r safleoedd potensial a nodwyd ddigon o amddiffyniad rhag perygl llifogydd. Ar y datblygwyr fydd

y cyfrifoldeb dros ddatrys hyn gyda'r awdurdod cynllunio lleol. Gellir cyfiawnhau buddsoddiad y Llywodraeth ar gyfer rheoli perygl i'r amgylchedd adeiledig cyfredol o dan amgylchiadau penodol, ni ddylid ei ffocysu ar gynnwys ac addasu datblygiadau yn y dyfodol. Dylai lleoliadau ar gyfer datblygu gael eu dethol ar sail perygl llifogydd isel, a fydd yn sicrhau fod gan ddatblygiadau gynlluniau sy'n gydnaws â llifogydd a SuDs.

Mae tueddiadau o waith dyn mewn dulliau o reoli a defnyddio tir wedi cynyddu'r perygl llifogydd dros amser yn yr is ardal hon. Gan weithio gyda grwpiau lleol â diddordeb, mae angen i ni gyflwyno dulliau gwahanol o weithio er mwyn gwrthdroi'r tueddiadau hyn ac, yn ogystal, er mwyn helpu i offsetio'r perygl llifogydd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Dros y 50 i 100 mlynedd nesaf, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, amcangyfrifir bydd y nifer o eiddo mewn perygl o lifogydd mewn digwyddiad â thebygolrwydd o 1% yn cynyddu i oddeutu 4,160.

## Gweledigaeth a pholisi dewisol

**Dewis Polisi 5** – Ardaloedd o berygl llifogydd canolig i uchel ble medrwn, yn gyffredinol, wneud mwy i leihau perygl llifogydd.



↑ Llifogydd yn Tewkesbury



Nod y polisi hwn yw lleihau'r perygl ble mae'r perygl llifogydd cyfredol yn rhy uchel. Mae angen i ni weithredu yn y tymor byr er mwyn gostwng y lefel hwn o berygl.


## Y negeseuon allweddol

- Rhaid rheoli datblygu/ailldatblygu er mwyn cadw perygl llifogydd i isafswm. Rhaid i ddulliau fod yn gynaliadwy dros y tymor hir. Er enghraifft, gwneud mwy o le ar gyfer afonydd trwy ardaloedd trefol trwy gyfrwng 'coridorau glas' (h.y. Adfer mynediad i lifddwr i stribedi allweddol o orlifdir. Mae hyn yn gofyn bod ailldatblygu yn cael ei gyfyngu i ddulliau o ddefnyddio tir sy'n gydnaws â llifogydd e.e. parcdir.)
- Mae llifogydd dŵr wyneb yn broblem gynyddol. Awdurdodau lleol sy'n bennaf gyfrifol am reoli hyn, ond yn aml, rhaid ei integreiddio gydag asedau sefydliadau eraill, er enghraifft eu carthffosydd neu afonydd.
- Ein bwriad yw achub ar gyfleoedd i adfer lle storio llifddwr naturiol ar orlifdiroedd nas datblygwyd, er mwyn lleihau dibyniaeth ar amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi'u codi, oherwydd nid yw hyn yn gynaliadwy dros y tymor hir, ac er mwyn offsetio perygl llifogydd cynyddol o dueddiadau gan gynnwys newid yn yr hinsawdd.
- Ni ellir dileu llifogydd yn gyfan gwbl ac felly mae angen i drigolion, perchnogion a busnesau reoli rhai o'r peryglon eu hunain. Er enghraifft, trwy gofrestru i dderbyn y gwasanaeth Rhybuddion Llinell Llifogydd Uniongyrchol (FWD) a chynlluniau wardeiniaid llifogydd; bod yn ymwybodol o gynlluniau argyfwng; ac addasu adeiladau bregus.

## Gweithredoedd a gynigir er mwyn gweithredu'r dull dewisol o fynd ati

- Sicrhau nad yw gorlifdiroedd yn cael eu datblygu mewn modd anaddas. Dilyn 'dull dilyniannol o fynd ati' PPS 25, ac ystyried cyfleoedd i ffeirio tir.
- Annog cydweddoldeb rhwng mannau agored trefol, a'u gallu i wneud lle i afonydd ymledu fel y ceir gorlifoedd, yn arbennig mewn mannau allweddol fel Cheltenham a Tewkesbury. Un enghraifft o ddefnydd sy'n gydnaws â llifogydd yw meysydd chwarae. Gwerthuso strategaethau er mwyn creu 'coridorau glas' trwy ddatblygu/ailldatblygu er mwyn cysylltu'r mannau hyn sy'n gydnaws â llifogydd.
- Datblygu dealltwriaeth well o lifogydd o ddŵr wyneb, o systemau draenio, ac o gyrsiau dŵr 'nad ydynt yn rhai mawr'. Cynhyrchu strategaeth ar gyfer gweithredu a buddsoddi, gan integreiddio'r rhain i gyd gyda phrif afonydd.
- Annog arferion gorau gwledig a threfol o ran defnyddio a rheoli tir er mwyn adfer gorlifdiroedd naturiol mwy gynaliadwy ac er mwyn lleihau dŵr ffo.
- Codi ymwybyddiaeth o lifogydd ymhlith y cyhoedd a phartneriaid allweddol, yn arbennig gweithredwyr pwysig seilwaith, gan eu caniatáu nhw i baratoi'n well. Eu hannog i gyd i gynyddu gwytnwch a gallu adeiladau bregus, seilwaith a busnesau i wrthsefyll.
- Adolygu pa mor effeithiol a chynaliadwy y mae pob amddiffynfa rhag llifogydd. Adolygu gweithrediadau cynnal a chadw er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur â pherygl llifogydd. Mae adolygiadau potensial penodol yn cynnwys asesu tynnu malurion wedi'i dargedu er mwyn cael gwared ar rwystrau o fewn ac o amgylch Cheltenham.
- Rheoli'r gorlifdir nas datblygwyd ar gyfer storio llifddwr mewn dull wedi'i dargedu. Er enghraifft medrai gwaith trin dŵr Mythe elwa o dynnu'r arglawdd rheilffordd nas defnyddir gerllaw. Ym Masn Chelt, ein nod yw gwneud asesiad manwl o effeithiau'r amddiffynfeydd amaethyddol sydd yno eisoes.
- Cynnal systemau rhybuddio am lifogydd a chwilio am gyfleoedd i wella effeithiolrwydd a rychwant. Hwyluso astudiaethau ar y cyrsiau dŵr canlynol [er mwyn gwasanaethu'r ardaloedd mewn cromfachau]: Chelt [Cheltenham,] Frome [Stroud] Twyver [Caerloyw] a Tirlle, Carrant a Swilgate [Tewkesbury].
- Cwblhau'r gwelliannau i amddiffynfeydd rhag llifogydd yn Cheltenham, ac edrych ar ymarferoldeb dewisiadau ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn Longlevens.
- Archwilio sut medrid gwella llwybrau llifo llifddwr yn ardal Tewkesbury.
- Archwilio i leihau perygl Tewkesbury trwy gynyddu trawsgludiad dan bontydd a thrwy gwllferi – trwy addasu ei hadeiladweithiau a/neu dadsiltio o'u hamgylch.

# Map o bolisiau CFMP



**Polisi 1:** Dim ymyriad gweithredol (gan gynnwys Rhybuddio am Llifogydd a Chynnal a Chadw). Parhau i fonitro a chynghori.

**Polisi 2:** Lleihau gweithredoedd rheoli perygl llifogydd cyfredol (gan dderbyn bydd perygl llifogydd yn cynyddu dros amser).

**Polisi 3:** Parhau â gweithredoedd cyfredol neu amgen er mwyn rheoli'r perygl o lifogydd ar y lefel bresennol.

**Polisi 4:** Gweithredu ymhellach er mwyn cynnal y lefel gyfredol o berygl llifogydd i'r dyfodol (gan ymateb i'r cynnydd potensial o ddatblygiad trefol, newid mewn sut y defnyddir tir a newid yn yr hinsawdd).

**Polisi 5:** Gweithredu ymhellach i leihau perygl llifogydd.

**Polisi 6:** Gweithredu gydag eraill er mwyn storio dŵr neu reoli dŵr ffo mewn mannau sy'n darparu gostyngiad cyffredinol yn y perygl o lifogydd neu fuddion amgylcheddol, yn lleol neu yn rhyw ran arall o'r dalgylch.



**A hoffech gael gwybod mwy amdanom ni  
neu am eich amgylchedd?**

**Yna ffoniwch ni ar**

**08708 506 506\*** (Llun–Gwener 8–6)

**e-bost**

**[enquiries@environment-agency.gov.uk](mailto:enquiries@environment-agency.gov.uk)**

**ymwelwch â'n gwefan**

**[www.asiantaeth-amgylchedd.gov.uk](http://www.asiantaeth-amgylchedd.gov.uk)**

**llinell argyfwng 0800 80 70 60** (24awr)

**llinell llifogydd 0845 988 1188**

**\* Amcangyfrif o gost galwadau: 8c a 6c y funud (llinell tir safonol).  
Nodwch y bydd prisiau gwahanol ddarparwyr gwasanaethau ffôn  
yn amrywio.**



**Yr amgylchedd yn gyntaf: argreffir yr adroddiad hwn ar bapur  
wedi ei wneud yn gyfan gwbl o wastraff a ddefnyddiwyd eisoes.  
Defnyddir isgynhyrchion gwneud y mwydion a'r papur ar gyfer  
compostio a gwrtaith, gwneud sment a chynhyrchu trydan.**